Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar
31 Mawrth 2016

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Adroddiad blynyddol a chyfrifon

Cynnwys Tudalen

Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad 3
Ynglŷn â CCAUC 4
Pwrpas a gweithgareddau CCAUC 4
Materion allweddol a risgiau 6
Perfformiad yn ystod y flwyddyn - crynodeb 7
Datblygiadau disgwyliedig yn y dyfodol 8

Dadansoddi perfformiad

Cynllun gweithredol – canlyniadau 10
Cynnydd yn erbyn mesurau'r strategaeth gorfforaethol - dadansoddiad 11
Amcanion a chanlyniadau'r strategaeth gorfforaethol 18
Dadansoddiad ariannol 21
Cynaliadwyedd 23

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr 26
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu 30
Datganiad llywodraethu 31

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

Polisi cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a'r pwyllgor cydnabyddiaeth 39
Hawliadau pensiwn a chydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) 40
Datgeliadau cyflog teg 44
Adroddiad staff 45

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 50

Datganiadau ariannol 53

Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar berfformiad

Mae'r flwyddyn adrodd wedi arwain at newidiadau sylweddol i ni, gyda Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ('y Ddeddf AU') yn dod yn gyfraith. Rydym wedi dechrau addasu ein rôl, gyda threfniadau cysylltiedig â chynllunio ffioedd a sicrwydd ansawdd yn newid, a'n rôl fel rheoleiddiwr addysg uwch yn cryfhau.

Bydd darparwyr addysg uwch Cymru, yn brifysgolion a cholegau addysg bellach, yn addasu i'r newidiadau yn ein perthynas, a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy i greu pontio llyfn ac i sicrhau bod ein dyletswyddau newydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae trafod, partneriaeth, ymgysylltu a dealltwriaeth, sydd wedi bod yn sail i'n perthnasoedd gyda darparwyr erioed, i gyd yn allweddol er mwyn bod yn rheoleiddiwr da. Wrth i gyllid cyhoeddus uniongyrchol gennym ni leihau, fodd bynnag, mae'r Ddeddf AU yn rhoi pwerau i ni ymyrryd os oes angen.

Mae newidiadau dilynol ym maes asesu ansawdd addysg uwch. Rydym ni, ochr yn ochr â chyllidwyr addysg uwch Lloegr a Gogledd Iwerddon, wedi treulio llawer o'r flwyddyn yn chwilio am ffyrdd newydd o asesu ansawdd addysg uwch, i weddu'n briodol i fframwaith ar gyfer y DU, gan ddiwallu anghenion nodedig Cymru hefyd. Rydym wedi rhoi sylw i agweddau ymarferol y newid yn ein rôl yn erbyn cefndir o gyhoeddiadau ac adroddiadau mawr.

Rydym wedi pwyso a mesur ein cyllid yn ofalus ers nifer o flynyddoedd ond mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyllido grantiau ffioedd hyfforddi'n uniongyrchol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o 1 Ebrill 2015 ymlaen, yn hytrach na thrwy CCAUC, wedi arwain at leihad mawr yn ein cyllid cymorth grant, o fwy na 65%, o £362.5 miliwn i £125.7 miliwn. Ers diwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2016, rydym wedi gorfod rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o dargedu ein cyllid, yn dilyn lleihad o £10 miliwn yn ein cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, gyda £21 miliwn pellach yn wynebu risg o symud o'n cyllideb a chael ei roi tuag at gyllid grant ffioedd hyfforddi yn nes ymlaen yn 2016-17.

Tua diwedd 2015-16, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '*Tuag at 2030'* gan yr Athro Ellen Hazelkorn. Argymhellodd yr adolygiad hwn o'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru sefydlu awdurdod newydd unigol yn lle CCAUC, i reoleiddio, goruchwylio a chydlynu'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16. Byddwn yn disgwyl yn eiddgar am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Athro Hazelkorn.

Yn olaf, ers diwedd 2015-16, mae'r Athro Syr Ian Diamond wedi cyhoeddi ei adroddiad interim ar gyllid addysg uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru, gan grynhoi'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno hyd yma. Rydym yn aros i'w adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ac yn ffyddiog y bydd canlyniadau terfynol y broses llunio polisïau hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod 2016-17 yn adlewyrchu'r angen am sicrhau system addysg uwch o safon byd yng Nghymru; system sy'n cynnal swyddi a thwf ond sydd hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at ddiwylliant, y celfyddydau ac at gydraddoldeb a chydlyniant cymdeithasol.

Aethom ati i dynnu sylw at lwyddiannau niferus y sector addysg uwch yn ein cyhoeddiad

fis Ionawr 2016 ‘Addysg Uwch ar gyfer y Genedl ii: cyfraniad prifysgolion Cymru’. Tynnwyd sylw gennym at gyfraniadau positif niferus sefydliadau addysg uwch Cymru at ffyniant economaidd a chymdeithasol ein gwlad. Yn unigol ac yn gasgliadol, dylem fod yn falch o’n prifysgolion. Dyma fuddsoddiad sy’n cyfrannu at y genedl hyfyw sydd yma yng Nghymru ac mae sefydliadau addysg uwch sydd ag adnoddau da’n ei chael yn haws i gadw eu henw da, denu myfyrwyr a diwallu anghenion ehangach Cymru. O ran y dyfodol rhagweladwy, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y darparwyr AU hyn ac yn eu dal i gyfrif, gan sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o’r safon uchaf mewn sefydliadau cadarn a chynaliadwy.

Ynglŷn â CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw’r corff cyhoeddus sy’n gyfryngwr rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd addysg uwch (AU), yn sicrhau bod fframwaith ar waith i asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad prifysgolion. Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil mewn addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith, er lles ehangach cymdeithas a’r economi.

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a sefydlwyd yn wreiddiol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi rhoi rôl gryfach i ni fel rheoleiddiwr AU yng Nghymru.

Pwrpas a gweithgareddau CCAUC

Dechreuodd cyfnod pontio o ddwy flynedd i ddyletswyddau CCAUC o dan y Ddeddf newydd ar 1 Medi 2015 a byddant yn gwbl weithredol o 1 Medi 2017 ymlaen.

Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd mewn prifysgolion, yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac yn craffu ar berfformiad ariannol, llywodraethu a risg mewn prifysgolion.

Rydym yn dosbarthu cyllid i AU a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae’n cynnwys y canlynol:

- Cyllid addysgu, ymchwil ac arall i brifysgolion Cymru.
- Cyllid ar gyfer cyrsiau AU mewn rhai colegau addysg bellach.

Rydym yn cefnogi’r system AU yng Nghymru i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar waith, gan sicrhau dysgu, addysgu ac ymchwil o’r safon uchaf a chyfrannu at ddiwylliant a chymdeithas Cymru, a’r economi.

Hefyd rydym yn achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA). Mae ein cyfrifoldebau ar gyfer HCA yn dod o dan Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon) (Cymru) 2004 a Deddf Addysg 2005.

Yr elfennau allweddol yn ein strategaeth, drwy gydol y flwyddyn, oedd y rhai sydd wedi’u datgan yn ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2013-14 i 2015-16 ac maent wedi’u datgan isod.

Mae ein fframwaith strategol wedi cael ei ddatgan yn Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16 fel a ganlyn:



Materion allweddol a risgiau

Manylir ar y materion allweddol i CCAUC yn ystod y flwyddyn fel 'risgiau sylweddol' yn ein Datganiad Llywodraethu ar dudalennau 31 i 38. I grynhoi, roeddent yn cynnwys y canlynol:

- Lleihad sylweddol yn y gyllideb
- Adolygiadau Llywodraeth Cymru o gyllid addysg uwch ac o drefniadau llywodraethu ar gyfer addysg ôl-orfodol yng Nghymru (*Adolygiadau Diamond* a *Hazelkorn*)
- Cyflwyno Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 – cyfnod pontio'r gweithredu wedi dechrau ar 1 Medi 2015
- Datblygiadau yn Lloegr a'r effaith bosib ar addysg uwch yng Nghymru

Cytunwyd ar gofrestr risg gorfforaethol wedi'i hadolygu o'n risgiau strategol allweddol gan ein Cyngor ym mis Mawrth 2016, a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol wedi cael ei strwythuro i adlewyrchu pob risg sylweddol a aseswyd gan ein timau mewn perthynas â'u hamcanion a'u prosiectau, gan gynnwys holl amcanion priodol y cynllun corfforaethol a'r cynllun gweithredol. Pe baent yn cael eu gwireddu, byddai'r risgiau hyn a nodwyd yn cael effaith negyddol sylweddol ar CCAUC a/neu ar y sector addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol.

Nid yw hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i'r risgiau yma gael eu gwireddu, yn ddiamheuol; yn hytrach, mae'r gofrestr risgiau'n dangos bod y rhain yn feysydd risg y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt ac ymateb iddynt er mwyn cyflawni ein swyddogaeth yn effeithiol. Mae monitro ac asesu risgiau allweddol a mesurau rheoli cyfredol yn gyfrwng i ni werthuso effaith yr ansicrwydd mawr hwn ar amcanion ein strategaeth gorfforaethol a'n cynllun gweithredol. Os yw hynny'n briodol, gallwn wedyn wneud addasiadau i'n mesurau rheoli.

Maes risg	**Prif risg(iau)**
Cynaliadwyedd a sicrwydd	• Darparwyr addysg uwch yn methu cynnal partneriaethau rhanbarthol effeithiol. • Sefydliadau AU yn methu cynnal eu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.
Ehangu mynediad	• Methiant y sector i gyrraedd targed rhan amser y strategaeth gorfforaethol.
Profiad y myfyriwr	• Sector AU yn methu cyrraedd targed ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. • Methu sicrhau bod Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn cael ei gyflwyno'n effeithiol • Methu sicrhau addysg uwch a phrofiad myfyrwyr o ansawdd ragorol yng nghyd-destun newidiadau cyllido sy'n gystadleuol yn y DU ac yn yr amgylchedd rhyngwladol. • CCAUC yn methu bodloni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer ansawdd o dan Ddeddf AU (Cymru) yng ngoleuni'r newidiadau i'r trefniant sicrwydd ansawdd a'r Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu.
Ymchwil	• Sector AU yn methu cyflawni disgwyliadau Llywodraeth Cymru o wella perfformiad ymchwil a chynnydd cysylltiedig yn yr incwm gan gynghorau ymchwil y DU. Mae'r risg yn cynyddu wrth i ymchwil ansawdd leihau.

Maes risg	Prif risg(iau)
Risgiau gweithredu CCAUC	• Baich gwaith yn cynyddu y tu hwnt i allu staff. • Llywodraeth Cymru'n methu gweithio gyda, a defnyddio, CCAUC yn effeithiol mewn perthynas â datblygiadau AU. • Cyllid CCAUC, ar ôl newidiadau i grantiau ffioedd, yn annigonol i gefnogi buddsoddiadau strategol a blaenoriaethau craidd. • Risg o gynnydd parhaus yn nifer y myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n dewis astudio yn rhywle arall, yn enwedig yng ngoleuni codi'r cap ar nifer y myfyrwyr yn Lloegr a'r mentrau i hybu recriwtio i brifysgolion tariff uchel. • CCAUC yn methu gweithredu Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn effeithiol. • Gallu i weithredu oddi mewn i gyllidebau costau rhedeg sylweddol is yn y dyfodol. • Rhai sefydliadau'n methu creu cynlluniau Ffioedd a Mynediad effeithiol. • Anallu i gytuno ar, a gweithredu, cynigion cyflog ar gyfer 2013-14 a 2014-15 ar sail fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, a/neu wrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru.

Perfformiad yn ystod y flwyddyn – crynodeb

Cynllun gweithredol – cynnydd yn erbyn blaenoriaethau

Mae'r tasgau yn ein cynllun gweithredol wedi cael eu seilio i raddau helaeth ar y blaenoriaethau sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth Cymru yn ei llythyr gorchwyl blynyddol i ni. Mae diweddariadau chwarterol a chyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru yn sicrhau asesiad parhaus o'n cyflawniadau ac yn gyfle i ni roi sylw i feysydd na fyddai'n gwneud cynnydd boddhaol fel arall o bosib.

Adolygwyd fformat y Cynllun Gweithredol yn 2015-16 fel ymateb i arweiniad Llywodraeth Cymru, a oedd yn dweud y dylem ddiwygio ein cynllun blynyddol i fanylu ar yr ystod ehangach o weithgareddau sy'n cael eu gwneud gennym bob blwyddyn, ac nid dim ond y gweithgareddau sydd wedi'u datgan yn y llythyr gorchwyl blynyddol. Roedd hyn yn golygu bod 176 o weithgareddau yn y cynllun diweddaraf, o gymharu â 34 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cwblhawyd 162 o'r rhain (gweler 'Cynllun Gweithredol - canlyniadau' isod ar dudalen 10).

Strategaeth gorfforaethol – cynnydd yn erbyn mesurau

Mae un deg saith o dargedau yn Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2013-14 i 2015-16[1], gan ddefnyddio data 2011/12 fel gwaelodlin. Er mwyn monitro ein cynnydd dros y pedair blynedd diwethaf yn erbyn y targedau, nodir isod y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd 31 Gorffennaf 2015. Yn ddiweddar, cytunodd Llywodraeth

[1] www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20Strategy%202013-14-2015-16.pdf

Cymru i estyn ein Strategaeth Gorfforaethol hyd at 2016-17[2]. Gwelir manylion am y cynnydd sydd wedi'i wneud yn 'Cynnydd yn erbyn mesurau'r Strategaeth Gorfforaethol - dadansoddiad' isod ar dudalennau 11 i 17.

Trosolwg ariannol

Perfformiad yn ystod y flwyddyn

	2016 £000	Ailddatganwyd 2015 £000
Cyllid i addysg uwch	133,975	373,201
Gwariant y Cyngor	2,752	2,580
Incwm arall	(8,046)	(20,519)
Llog taladwy	1	-
Cymorth grant – cyllid gan Lywodraeth Cymru	(125,747)	(362,518)
(Lleihad)/cynnydd mewn Ecwiti Trethdalwyr	(2,935)	7,256

Mae'r cymorth grant wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyllido grantiau ffioedd hyfforddi'n uniongyrchol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

Y rheswm pennaf dros y lleihad o £12.5 miliwn mewn 'Incwm arall' yw diwedd cyllid prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a chyllid untro a dderbyniwyd gan UKRPIF ar gyfer Prifysgol Abertawe yn 2014-15.

Edrychwch ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar dudalennau 53 a 56 a nodyn 7 y cyfrifon (mewn perthynas â ffigurau 2015 a gafodd eu hailddatgan) am ragor o fanylion.

Datblygiadau disgwyliedig yn y dyfodol

Yn ystod y deuddeg mis nesaf, byddwn yn cryfhau ein hunaniaeth ein hun ac yn datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, gan barhau i weithredu gofynion Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

- Bydd ein strategaeth gorfforaethol newydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2017. Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal ymgynghoriad helaeth ar ei datblygiad.
- Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda darparwyr addysg uwch ar strategaeth newydd sbon ar gyfer addysg uwch, a fydd yn eu paratoi ar gyfer yr heriau sydd o'n blaen yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Byddwn yn ystyried sut i gynnal a datblygu system AU gadarn yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r newidiadau ehangach yn y DU.
- O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, mae gennym ddyletswyddau penodol mewn perthynas â'r canlynol: cynlluniau ffioedd a mynediad; ansawdd addysg; Cod Rheolaeth Ariannol ar gyfer sefydliadau a reoleiddir; a Datganiad o Ymyriadau, sy'n datgan beth fydd yn digwydd os bydd sefydliad a reoleiddir yn methu ad-dalu ffioedd myfyrwyr gormodol neu'n methu rhoi sylw i faterion ansawdd penodol.

[2] Paragraff10 W15/02HE

Byddwn yn parhau â'n hymgynghoriad ffurfiol ar nifer o agweddau ar ein gofynion newydd yn ystod y 'cyfnod pontio' presennol, gan barhau i siarad â darparwyr am unrhyw faterion neu bryderon sydd ganddynt cyn gweithredu ein dyletswyddau newydd yn llawn ym mis Medi 2017.

- Rydym yn aros am ganlyniadau terfynol adolygiad annibynnol yr Athro Syr Ian Diamond o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr, a byddwn yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o weithredu unrhyw newidiadau sy'n codi o ganlyniad i gamau gweithredu Llywodraeth Cymru fel ymateb i'r adolygiad.
- Hefyd byddwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithredu unrhyw newidiadau i'n cylch gorchwyl unwaith y bydd yn ystyried yn fanylach yr argymhellion yn adolygiad yr Athro Ellen Hazelkorn, *Tuag at 2030*.
- Yn olaf, rydym yn disgwyl cyhoeddi dadansoddiad o effeithiau fframwaith ffioedd a chyllid presennol Llywodraeth Cymru ar incwm prifysgolion yng Nghymru yn ystod ei dair blynedd gyntaf yn weithredol, fel rhan o'n hymgyrch i sicrhau bod gwybodaeth am gyllid yn gwbl dryloyw ac ar gael i'r cyhoedd.

Dadansoddi perfformiad

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i CCAUC fod â chynllun corfforaethol sy'n datgan ein hamcanion tymor canolig a hir a chynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Diwygiwyd y cynllun yn 2015-16 i fanylu ar yr ystod ehangach o weithgareddau a wnaed, yn ogystal â'r gweithgareddau sydd wedi'u datgan yn y llythyr gorchwyl blynyddol. Cynhelir diweddariadau chwarterol a chyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol.

Mae'r Ddogfen Fframwaith, sy'n datgan telerau'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC, yn ei gwneud yn ofynnol i ni bennu cyllidebau a monitro gwariant. Cyflawnir hyn drwy gyhoeddi adroddiadau cyllidebol misol ac ailbroffilio gwariant ariannol yn chwarterol. Hefyd rydym yn monitro ein balans yn fisol i sicrhau ei fod yn cadw oddi mewn i gyfyngiadau a nodir.

Cynllun gweithredol – canlyniadau

O blith y 176 o weithgareddau sydd wedi'u datgan yn ein cynllun gweithredol:

- cwblhawyd 162 (gyda 152 o'r rhain wedi'u cwblhau oddi mewn i'r amserlen a bennwyd).
- ni chwblhawyd 8 oddi mewn i'r cyfnod cynllunio.
- nid oedd 6 yn berthnasol mwyach oherwydd ffactorau allanol.

Bu peth oedi o ganlyniad i orfod gweithredu ein cyfrifoldebau statudol newydd oddi mewn i'r amserlenni angenrheidiol. Nid oedd eraill wedi gosod unrhyw ddyddiad cwblhau neu roedd y dyddiad yn hyblyg, i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r canlyniadau gofynnol.

Roedd ein cyflawniadau yn ystod 2015-16 yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu cyfarwyddyd newydd ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad 2017-18.
- Datblygu trefniadau sicrwydd ansawdd newydd i ddiwallu anghenion Cymru, ac yn briodol i ofynion Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
- Ein gwaith parhaus gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) ar adolygu gwybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.
- Cyhoeddi ein 'datganiad pontio o ymyriadau', sy'n manylu ar sut byddwn yn gweithredu os bydd sefydliad a reoleiddir yn methu ad-dalu ffioedd myfyrwyr gormodol neu'n methu rhoi sylw i faterion ansawdd penodol.
- Treialu'r gwaith o gasglu a dadansoddi data myfyrwyr rhyngwladol ac addysg drawsgenedlaethol yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â 'Prifysgolion Cymru' a phrifysgolion.
- Datblygu a sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen newydd GO Wales.
- Datblygu memorandwm ariannol newydd rhyngom ni a darparwyr addysg uwch.
- Llunio adroddiad i'r Gweinidog Addysg ar y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch cyflog uwch reolwyr, yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol ac adroddiadau blynyddol y sefydliadau AU.
- Ymwneud â datblygiadau Cymru a'r DU mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi, gan gynnwys bwydo i adolygiadau ledled y DU o strwythurau a chefnogaeth.

Cynnydd yn erbyn mesurau'r strategaeth gorfforaethol – dadansoddiad

Mae un deg saith o dargedau yn ein Strategaeth Gorfforaethol ar gyfer 2013-14 i 2015-16[3], gan ddefnyddio data 2011/12 fel gwaelodlin. Er mwyn monitro ein cynnydd dros y pedair blynedd diwethaf yn erbyn y targedau, nodir isod y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y flwyddyn academaidd hyd 31 Gorffennaf 2015. Y llynedd, cytunodd Llywodraeth Cymru i estyn ein Strategaeth Gorfforaethol gyfredol tan 2016-17[4], gan roi blwyddyn ychwanegol i gyflawni'r targedau, i bob pwrpas.

Gan edrych ar ddata 2014/15 a dilyn y perfformiad hwn yn ei flaen, mae'n bosib y caiff y targedau hyn eu cyflawni: Ehangu mynediad (Targed T1), Cyfranogiad (T2); Cadw myfyrwyr (T3, Llawn amser); cyfrwng Cymraeg (T6) (5 credyd targed yn unig); DPP (T12), Incwm o ymchwil gydweithredol (T13); a Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (T15). Fodd bynnag, mae rhagolygon y sefydliadau eto i'w derbyn ac efallai y byddant yn dangos darlun gwahanol ar gyfer rhai o'r targedau hyn.

Mae nifer o'r targedau'n gymharol â pherfformiad ledled y DU neu'n aros am ddata ar berfformiad, ac felly ni ellir eu hasesu. Mae hyn yn wir yn achos Rhan amser (T4); yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (T5); Myfyrwyr Tramor (T7); Ansawdd (T8); HCA (T9); Cyflogaeth (T10); Incwm Cynghorau Ymchwil (T14); Incwm (T16) a Llywodraethu (T17).

Ar sail perfformiadau 2014/15, dynodir na fydd dau darged yn cael eu cyrraedd: Cadw myfyrwyr (T3, Rhan amser) a chyfrwng Cymraeg (T6) (40 credyd). Nid oes data am Gyflogadwyedd (T11) ar gael eto, fel y dynodir uchod, ac efallai y bydd y rhagolygon sefydliadol yn dangos darlun gwahanol.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac i weithio gyda'r sector addysg uwch i annog perfformiadau gwell yn y meysydd polisi hyn, gan nodi bod newidiadau i'n pwerau ac i'n cyllid yn cyfyngu ar ein gallu i ddylanwadu ar y meysydd hyn.

	Gwaelodlin	**Cynnydd**	**Cynnydd**	**Cynnydd**
1 Cynnydd yng nghyfran yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ac sy'n hanu o ward yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, neu o ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, **o 20.1% yn 2011/12 i 22.4% yn 2016/17 (cynnydd o 11.6%)** *Mae'r waelodlin a'r targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r ffaith bod un ardal wedi cael ei chynnwys yn hwyr ym menter Cymunedau yn Gyntaf				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	20.1%	20.7%	20.9%	21.6%
	Gwaelodlin	**Cynnydd**	**Cynnydd**	**Cynnydd**

[3] www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20Strategy%202013-14-2015-16.pdf

[4] Paragraff 10 W15/02HE

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
2 Cynnydd yng nghyfran yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru ac sy'n dod o ardaloedd cyfranogiad isel y DU, **o 33.2% yn 2011/12 i 35.3% yn 2016/17 (cynnydd o 6.3%)**				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	33.2%	34.0%	34.3%	35.2%
3 (a) Lleihad yng nghanran y myfyrwyr israddedig llawn amser nad ydynt bellach mewn addysg uwch yn dilyn eu blwyddyn mynediad, **o 9.2% yn 2011-12 i 8.2% yn 2016/17 (lleihad o 10.7%)**				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	9.2%	7.5%	7.5%	8.2%
3 (b) Lleihad yng nghanran y myfyrwyr rhan amser, gradd gyntaf nad ydynt bellach mewn addysg uwch ddwy flynedd yn dilyn eu blwyddyn mynediad, **o 33.7% yn 2011/12 i 30.1% yn 2016/17 (lleihad o 10.7%)**				
	2011/12 (mynediad 2009/10)	2012/13 (mynediad 2010/11)	2013/14 (mynediad 2011/12)	2014/15 (mynediad 2012/13)
	33.7%	30.9%	35.5%	34.4%
4 Y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr rhan amser sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, **i fod yn hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymharol ar gyfer y DU**				
	2010/11 i 2011/12 % twf	2011/12 i 2012/13 % twf	2012/13 i 2013/14 % twf	2013/14 i 2014/15 % twf
	sefydliadau **Cymru** -2.2%	sefydliadau **Cymru** -4.8%	sefydliadau **Cymru** -3.4%	sefydliadau **Cymru** -4.0%
	Sefydliadau'r **DU** -6.0%	Sefydliadau'r **DU** -13.8%	Sefydliadau'r **DU** -7.3%	Sefydliadau'r **DU** -5.1%

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
5 Bydd y sgôr dreigl gyfartalog dros dair blynedd ar gyfer Cymru yng nghwestiwn 'bodlonrwydd cyffredinol'* yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr **yn hafal i, neu'n fwy na'r sgôr gymharol ar gyfer y DU** ** Ystyr 'sgôr' yw canran y myfyrwyr a gytunodd â 'Yn gyffredinol, rwy'n fodlon ar safon fy nghwrs'.*				
	2010 i 2012 Sgôr dreigl gyfartalog dros 3 blynedd	2011 i 2013 Sgôr dreigl gyfartalog dros 3 blynedd	2012 i 2014 Sgôr dreigl gyfartalog dros 3 blynedd	2013 i 2015 Sgôr dreigl gyfartalog dros 3 blynedd
	Sefydliadau **Cymru**	Sefydliadau **Cymru**	Sefydliadau **Cymru**	Sefydliadau **Cymru**
	83.3%	83.7%	84.3%	84.7%
	Sefydliadau'r **DU**	Sefydliadau'r **DU**	Sefydliadau'r **DU**	Sefydliadau'r **DU**
	83.3%	84.3%	85.3%	85.7%
6 Bydd nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac sy'n gwneud o leiaf 5 credyd o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn, yn codi o 4,335 yn 2011/12 i 5,600 yn 2016/17, ac o fewn y ffigur hwnnw, bydd nifer y rhai sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn yn codi o 2,269 i 3,030				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	5 credyd a mwy	**5 credyd a mwy**	**5 credyd a mwy**	**5 credyd a mwy**
	4,335	4,881	4,858	5,228
	40 credyd a mwy	**40 credyd a mwy**	**40 credyd a mwy**	**40 credyd a mwy**
	2,269	2,359	2,445	2,484

	Gwaelodlin	**Cynnydd**	**Cynnydd**	**Cynnydd**
7 Bydd y twf canrannol, o flwyddyn i flwyddyn, yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cyrsiau addysg uwch yn sefydliadau addysg uwch Cymru yn **hafal i, neu'n fwy na, y ffigur cymharol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU** (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr)				
	2010/11 i 2011/12 % twf	2011/12 i 2012/13 %twf	2012/13 i 2013/14 % twf	2013/14 i 2% 2014/15 % twf
	Sefydliadau AU **Cymru** -1.5%	Sefydliadau AU **Cymru** -1.4%	Sefydliadau AU **Cymru** 7.4%	Sefydliadau AU **Cymru** -5.1%
	Sefydliadau AU y **DU** (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 2.6%	Sefydliadau AU y **DU** (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 0.7%	Sefydliadau AU y **DU** (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 4.1%	Sefydliadau AU y **DU** (ac eithrio Llundain a De Ddwyrain Lloegr) 0.3%
8 Yr holl sefydliadau sy'n cael eu hadolygu yng nghyfnod y Strategaeth Gorfforaethol ac y bernir eu bod yn **'bodloni disgwyliadau'r DU' ar gyfer pob dyfarniad, neu'n 'glodwiw', yn Adolygiad Sefydliadol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.** Y data'n gyflawn ar 31 Mai 2016				
		2013/14	2014/15	2015/16
	Y nifer a gofnodwyd yn ystod y cyfnod	1	3	2
	Y nifer sy'n 'glodwiw' neu'n 'bodloni disgwyliadau'r DU'	1	3	2
	Gwaelodlin	**Cynnydd**	**Cynnydd**	**Cynnydd**

9 Targedau recriwtio Llywodraeth Cymru ar gyfer HCA israddedig cynradd, ôl-raddedig cynradd, israddedig uwchradd, pynciau blaenoriaeth ôl-raddedig uwchradd a phynciau eraill ôl-raddedig uwchradd, a fydd yn cael eu **bodloni'n flynyddol**

Noder: Caiff targedau recriwtio eu monitro fesul canolfan, cyfnod, lefel a phwnc gan ddefnyddio data HESES, ac os oes unrhyw darged unigol wedi'i or-recriwtio gan dros 5%, cyflwynir cosb. Ni roddwyd cosb yn 2012/13, 2013/14 na chwaith yn 2014/15. Caniateir tanrecriwtio ond caiff ei fonitro[5]. Caiff targed y Strategaeth Gorfforaethol ei fonitro ar lefel sector gan ddefnyddio data HESA.

	2012/13	2013/14	2014/15
Israddedig Cynradd	2%	-1%	-3%
Ôl-raddedig Cynradd	4%	2%	-1%
Israddedig Uwchradd	-15%	-52%	-69%
TAR uwchradd - blaenoriaeth	-18%	-12%	-31%
TAR uwchradd - arall	3%	-1%	-14%

10 Bydd cyfran yr ymadawyr o sefydliadau addysg uwch Cymru sy'n cael cymwysterau israddedig drwy astudiaethau llawn amser neu ran amser ac yn gyflogedig, yn astudio, neu'r ddau, chwe mis ar ôl gadael **yn hafal i, neu'n uwch na, chyfran y DU**

2010/11	2012/13	2013/14	2014/15
Sefydliadau **Cymru** 92.2%	Sefydliadau **Cymru** 93.5%	Sefydliadau **Cymru** 94.2%	Sefydliadau **Cymru** Data ddim ar gael eto
Sefydliadau'r **DU** 91.5%	Sefydliadau'r **DU** 93.1%%	Sefydliadau'r **DU** 93.8%	Sefydliadau'r **DU** Data ddim ar gael eto

5 www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2013/W13%2008HE%20Initial%20Teacher%20Training%20Controls%20on%20recruitment%20against%20intake%20targets.pdf

	Gwaelodlin	Cynnydd	Cynnydd	Cynnydd
11 Bydd cyfran yr ymadawyr a oedd yn gweithio, neu'n gweithio ac astudio, mewn swydd reolaethol/broffesiynol chwe mis ar ôl gadael yn **codi o 67.5% yn 2010/11 i 72.7% yn 2016/17 (cynnydd o 7.7%)**				
	2010/11	2012/13	2013/14	2014/15
	67.5%	68.4%	70.2%	Data ddim ar gael eto
12 Bydd cyfanswm y dyddiau dysgwyr a gyflenwir gan sefydliadau addysg uwch Cymru ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn **codi o 202,498 yn 2011/12 i 226,000 yn 2016/17 (cynnydd o 11.6%)**				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	202,498	213,534	206,147	248,867
13 Bydd cyfanswm yr incwm o ymchwil gydweithredol, gan gynnwys cyllid cyhoeddus a nawdd gan fusnesau, yn **codi o £65,294k yn 2011/12 i £72,000k yn 2016/17 (cynnydd o 10.3%)**				
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	65,294k	70,006k	83,135k	83,669k
14 Bydd y newid canrannol blynyddol mewn incwm gan Gynghorau Ymchwil yn **uwch na'r ffigur cymharol ar gyfer sefydliadau addysg uwch y DU** (ac eithrio 'triongl euraid' Rhydychen, Caergrawnt a Llundain)				
	2010/11 i 2011/12 % twf	2011/12 i 2012/13 % twf	2012/13 i 2013/14 % twf	2013/14 i 2014/15 % twf
	Sefydliadau AU **Cymru**	Sefydliadau AU **Cymru**	Sefydliadau AU **Cymru**	Sefydliadau AU **Cymru**
	-3.6%	-10.1%	5.7%	9.9%
	Sefydliadau AU y **DU**	Sefydliadau AU y **DU**	Sefydliadau AU y **DU**	Sefydliadau AU y **DU**
	-4.0%	1.6%	6.6%	7.4%

15 Bydd **cyfran uwch** o ymchwil a gyflwynwyd i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gan sefydliadau addysg uwch Cymru yn sicrhau 3* a 4* yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 **o waelodlin o 35% ar 3* a 14% ar 4*** yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2008.

	2008 RAE	2014 REF		
	4* 14% 3* 35%	4* 30% 3* 47%		

16 Bydd gan **o leiaf 75% o sefydliadau addysg uwch Cymru** incwm blynyddol sy'n fwy na'r canolrif ar gyfer y DU, ac **ni fydd unrhyw sefydliad yn y chwartel isaf erbyn 2016-17**

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 40% (4 allan o 8 o sefydliadau)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 50% (4 allan o 8 o sefydliadau)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 50% (4 allan o 8 o sefydliadau)	Yn fwy na'r canolrif ar gyfer y DU 50% (4 allan o 8 o sefydliadau)
	Yn y chwartel isaf 30% (3 allan o 10 o sefydliadau)	Yn y chwartel isaf 13% (1 allan o 8 o sefydliadau)	Yn y chwartel isaf 13% (1 allan o 8 o sefydliadau)	Yn y chwartel isaf 13% (1 allan o 8 o sefydliadau)

17 Ni fydd unrhyw sefydliad addysg uwch yn cael ei ddynodi'n 'risg uchel' o dan brosesau adolygu risg sefydliadol CCAUC

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
	0	0	1	1

Amcanion a chanlyniadau'r strategaeth gorfforaethol

Ehangu Mynediad: *Sicrhau cynhwysiant, cynnydd a llwyddiant mewn addysg uwch*

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phrifysgolion i annog unigolion o grwpiau a dangynrychiolir yn draddodiadol mewn addysg uwch i ystyried cyfleoedd dysgu a sgiliau lefel uwch. Mae unigolion sy'n gadael gofal yn un grŵp o'r fath: dim ond rhyw 6% o unigolion 19 oed oedd wedi gadael gofal yng Nghymru oedd mewn addysg ôl-16 lawn amser yn 2013. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant y cynulliad mwyaf erioed o ofalwyr sy'n oedolion yng Nghymru. Anogodd hyn hwy i ddysgu mwy am fywyd mewn prifysgol. Cymerodd ugain o bobl ifanc o gefndir gofal ran mewn ysgol haf ym Mhrifysgol Caerdydd, gyda'r nod o annog y rhai o grwpiau a dangynrychiolir yn draddodiadol i feddwl am fynd i'r brifysgol. Mae myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal yn cael cynnig llety drwy gydol y flwyddyn mewn prifysgol a chefnogaeth ychwanegol drwy gyfrwng Cynllun Bwrsari i Unigolion Sy'n Gadael Gofal, sy'n cyfrannu tuag at gostau graddio, teithio a dillad ar gyfer cyfweliadau.

Cyllidwyd Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) (ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe) i astudio mynediad disgyblion i addysg uwch mewn cryn fanylder. Daeth adroddiad WISERD gan Brifysgol Caerdydd ym mis Medi 2015 i'r casgliad bod siawns disgyblion ysgol Cymru o gael lle mewn prifysgol yn amrywio'n ddramatig yn ôl yr ysgol maent yn mynd iddi a'r awdurdod lleol y mae'r ysgol honno wedi'i lleoli ynddo, heb ystyried eu cyflawniad addysgol unigol. Roedd disgyblion mewn ysgolion gyda record dda o gyfranogiad addysg uwch bron deirgwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn addysg uwch o gymharu â'r disgyblion yn yr ysgolion hynny gyda lefelau cymedrol o gyfranogiad addysg uwch, eto heb ystyried eu cyflawniad addysgol na chefndir economaidd-gymdeithasol nac ethnig.

Sgiliau, Cyflogadwyedd a Menter: *Sicrhau bod graddedigion yn barod ar gyfer byd gwaith a bod prifysgolion yn cyfrannu at weithlu sydd â gwell sgiliau.*

Mae ein buddsoddiad mewn cyrsiau rhan amser yn helpu prifysgolion i sicrhau bod eu ffioedd ar gyfer cyrsiau rhan amser yn cael eu cadw i lawr, gan helpu i wneud dysgu wrth ennill cyflog neu wella sgiliau'n fforddiadwy i fwy o bobl. Mae prifysgolion wedi tynnu sylw at eu llwyddiannau o ran gwella 'cyflogadwyedd' eu graddedigion, gyda chyfrannau uchel o raddedigion nid yn unig yn gyflogedig, ond mewn swyddi graddedigion. Yn ystod y flwyddyn, dewisodd Comisiwn y DU ar gyfer Cyflogaeth a Sgiliau (UKCES) bum sefydliad i brofi ffyrdd newydd o ddatblygu sgiliau ar gyfer arloesi mewn gweithgynhyrchu. Arweinir dau o'r prosiectau hyn gan brifysgolion - Metropolitan Caerdydd ac Abertawe.

Datblygodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac Acorn Learning Ltd radd sylfaen mewn Ymarfer Proffesiynol Cymhwysol, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau cyflogeion. Hefyd, gall yr holl staff sy'n gweithio ar bob lefel yn y sector addysg gael mynediad at y Brifysgol Agored yn adnoddau ar-lein Cymru ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng 'OpenLearn' a 'FutureLearn'.

Fis Mehefin 2015, cyfarfu arweinwyr busnes, entrepreneuriaid, cynghorwyr gyrfa ac arbenigwyr ar gyflogadwyedd myfyrwyr yng Nghaerdydd i edrych ar sut mae prifysgolion yn paratoi graddedigion ar gyfer y byd gwaith. Daeth ein cynhadledd Gwybodaeth am Gyflogadwyedd â'r prif ddylanwadau ar yrfaoedd graddedigion at ei gilydd i rannu eu profiadau ac i roi 'mantais' i'w myfyrwyr mewn cyflogaeth. Pwysleisiodd y Dirprwy

Weinidog ar gyfer Sgiliau ar y pryd bwysigrwydd darparu'r hyn mae cyflogwyr ei eisiau: graddedigion sydd â phrofiad gwaith, gallu i feddwl yn feirniadol, gwybodaeth am eu pwnc a sgiliau technegol, er mwyn cadw graddedigion sydd â lefel uchel o sgiliau yn economi Cymru. Mewn cyfres o weithdai cafwyd cipolwg ar raglenni cyflogadwyedd mewn prifysgolion, gan gynnwys Dyfarniad Grad Edge Prifysgol De Cymru, hyfforddiant y Brifysgol Agored i fyfyrwyr o ardaloedd difreintiedig, ac Academi Cyflogadwyedd Prifysgol Abertawe.

Mae Swigen Greadigol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi gweld cannoedd o fyfyrwyr yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol ar ganol dinas Abertawe, gan wella eu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth hefyd. Mae'r myfyrwyr wedi trefnu perfformiadau stryd, arddangosfeydd celf, ffeiriau crefft undydd a gweithdai galw i mewn ac wedi rheoli llwyfan haf yng nghanol y ddinas o eiddo'r Swigen Greadigol yng nghanol y ddinas. Bu entrepreneuriaid yn ymweld i siarad gyda'r myfyrwyr am gyfleoedd. Drwy gyfrwng y cysylltiadau hyn â'r Swigen Greadigol, mae'r myfyrwyr wedi cael cynnig gwaith cyflogedig, lleoliadau ac interniaethau.

Profiad y Myfyrwyr*: Sicrhau addysg uwch a phrofiad myfyrwyr o ansawdd ragorol, gyda llais y myfyriwr yn cyfrannu at wella hynny*

Mae 85% o fyfyrwyr Cymru'n fodlon gyda'u profiad addysg uwch yn gyffredinol, yn ôl arolwg y llynedd ar brifysgolion a cholegau addysg bellach. Dangosodd yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr bod y boddhad cyffredinol yn parhau'n gyson ac roedd cynnydd penodol mewn meysydd fel adnoddau dysgu a boddhad gydag undeb y myfyrwyr.

Wrth i Jake Sallaway-Costello, a raddiodd o Brifysgol Bangor yn 2015 gyda gradd BSc (Anrh) mewn Seicoleg gyda Seicoleg Glinigol ac Iechyd, gofio'n ôl am ei gyfnod ym Mhrifysgol Bangor, dywedodd ei fod wedi trawsnewid o fod yn weithiwr i fod yn berson proffesiynol. Tynnodd sylw at y cyfleoedd ym Mangor i gymryd rhan mewn interniaethau gyda chyflog, dosbarthiadau iaith, prosiectau gwirfoddoli cydgwricwlaidd, addysg ryngwladol a rhaglen ddatblygu bersonol - proffesiynol o safon byd. Rhoddodd y Brifysgol gyfleoedd hyrwyddo gyrfa iddo a graddiodd Jake gyda rhwydwaith proffesiynol cadarn a nifer o ddyfarniadau. Aeth i'r farchnad swyddi gyda sgiliau a hyder. Mae gan Brifysgol Bangor gynlluniau yn awr i weithio gyda Pŵer Niwclear Horizon ar gyflogadwyedd myfyrwyr, lleoliadau gwaith a chyflogaeth i raddedigion; i rannu ymchwilwyr a chyfleusterau; ac i hybu pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

Agorodd Prifysgol De Cymru ddatblygiad gwerth £3.3 miliwn yn ei Chanolfan Awyrofod, gan adeiladu ar ei phartneriaeth gyda British Airways. Mae'r bartneriaeth yn rhoi i staff y cwmni awyrennau gyfle i ddatblygu eu sgiliau yn y Brifysgol ac mae'r myfyrwyr awyrofod yn cael mynediad at awyren real i wella eu cyfleoedd gyrfaol wrth iddynt astudio am eu gradd.

Arloesi ac Ymgysylltu: *Ecsbloetio a sicrhau defnydd o wybodaeth i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac economi ffyniannus*

Unwaith eto dangosodd canlyniadau'r arolwg HE-BCI pa mor llwyddiannus oedd ymchwilwyr prifysgol yn cydweithio gyda chyrff masnach a chymunedol a'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, dangosodd yr arolwg bod prifysgolion Cymru'n hynod effeithiol am greu'r amodau cywir ar gyfer eu staff academaidd a'u graddedigion wrth iddynt sefydlu sgil-gwmnïau, ac mae rhai ohonynt yn eiddo i brifysgol yn rhannol.

Mae Prifysgol Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn arwain Athrofa Cymru ar gyfer Dylunio Cynaliadwy. Drwy gyfrwng hyn, maent yn rhedeg Canolfan Arloesi Cerebra, sy'n cynnig gwasanaethau dylunio pwrpasol ar gyfer cynhyrchion sydd o fudd i blant gyda chyflyrau niwrolegol. Mae'r Athrofa nid yn unig wedi bod yn gweithio gydag elusen genedlaethol, ond hefyd mae wedi masnacheiddio rhai o'r cynhyrchion mewn partneriaeth â gweithgynhyrchwyr trydydd parti o dan gytundebau trwyddedu.

Mae gwyddonwyr Prifysgol Glyndŵr wedi gorffen sgleinio drychau prototeip ar gyfer telesgop mwyaf y byd (Telesgop Ewropeaidd Eithriadol Fawr) i lawr i lai na 7.5 nanometr – maint moleciwl – ar ôl pedair blynedd o waith.

Agorodd Prifysgol Abertawe Ganolfan NanoIechyd gyntaf Ewrop, sy'n cynnig mynediad i staff academaidd, clinigwyr byrddau iechyd y GIG a diwydiant, ac mae'n darparu canolfan arloesi a thechnoleg ar gyfer busnesau.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi denu £20 miliwn o gyllid Ewropeaidd ar gyfer ei Champws Arloesi a Menter, cyfleuster sy'n ceisio denu cyllid ymchwil pellach er mwyn i gwmnïau ac ymchwilwyr gydweithredu ar brosiectau i greu cynhyrchion, gwasanaethau a sgil-gwmnïau newydd arloesol yn y sectorau bwyd cynaliadwy, iechyd, biodechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

Bydd arbenigedd Prifysgol Caerdydd mewn ymchwilio i dechnolegau arloesol a'u datblygu ar gyfer sector gofal iechyd y DU yn cefnogi Canolfan Caerdydd *Precision Medicine Catapult*, a gyllidir gan Innovate UK. Dyma un o chwe chanolfan rhagoriaeth i ganfod a goresgyn rhwystrau a oedd yn atal sefydlu diwydiant blaenllaw ym maes meddygaeth manylrwydd yn y DU.

Ymchwil: *Sicrhau ymchwil o ansawdd rhagorol yn rhyngwladol er mwyn creu economi ffyniannus a chefnogi cyfiawnder cymdeithasol*

Mae prifysgolion yn denu cyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, gan greu swyddi a thwf. Dangosodd y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf yn 2014 bod hanner yr ymchwil a gyflwynwyd gan brifysgolion Cymru o safon byd o ran ei effaith ar fywyd y tu hwnt i academia. Mae prifysgolion wedi parhau i gyfrannu at Gymru fwy ffyniannus a chyfartal. Mae cyllid ymchwil CCAUC wedi bod yn gyfrwng i lansio prosiectau niferus sydd wedi symud ymlaen i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru neu'r DU, o Ewrop neu gyllid preifat. Er enghraifft, y buddsoddiad o £522 miliwn gan Brifysgol Abertawe yn rhaglen ddatblygu Campws y Bae.

Bangor yw'r brifysgol sy'n arwain datblygiad Parc Gwyddoniaeth Menai, datblygiad gwerth £20 miliwn gyda'r nod o wneud y canlynol: annog diwydiant technolegol a phartneriaethau ymchwil gwyddonol yng ngogledd orllewin Cymru; creu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir sgiliedig; a bod yn ganolfan economaidd mewn sectorau fel carbon isel, ynni a'r amgylchedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Dyfarnodd Cronfa'r Loteri Fawr £890,000 i Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth fel rhan o brosiect ymchwil gwerth £1.3 miliwn i gyfiawnder i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain.

Mae datblygiad gwerth £300 miliwn Prifysgol Caerdydd ar safle Heol Maendy'n cynnwys cynlluniau i adeiladu Parc Ymchwil Gwyddoniaeth Gymdeithasol cyntaf y byd, a fyddai'n gallu troi ymchwil byd-enwog yn ddatrysiadau i'r problemau dwys sy'n wynebu cymdeithas a'r byd. Mae gan glwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd y Brifysgol botensial i greu hyd

at 5,000 o swyddi yn y rhanbarth yn ystod y pum mlynedd nesaf, fel rhan o ymdrechion i adfer gweithgynhyrchu technoleg gwerth uchel gan gystadleuwyr byd-eang. Yn y cyfamser, mae ei Hathrofa Ymchwil i Lefydd Cynaliadwy'n cynnal ymchwil i Bolisi Bwyd Llywodraeth Cymru, gan edrych ar broblemau tlodi bwyd ac effaith cynhyrchu bwyd a defnydd o fwyd. Prifysgol Caerdydd yw'r derbynnydd unigol mwyaf ar gyllid ymchwil CCAUC.

Dadansoddiad ariannol

Wrth gyflawni'r amcanion a'r nodau strategol sydd wedi'u datgan, cawsom gyfanswm o £125.7 miliwn o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru (2014-15: £362.5 miliwn). Mae'r swm yma'n ostyngiad blynyddol mewn cyllid cyffredinol o £236.8 miliwn a'r rheswm pennaf dros hynny yw'r newid yn y dull o dalu cyllid ffioedd hyfforddi i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, gyda'r cyllid hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r Cwmni hwnnw gan Lywodraeth Cymru o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

Cyllido gwariant addysg uwch (£'000)



Yn ychwanegol at ein cyllid cymorth grant gan Lywodraeth Cymru, derbyniwyd £8.0 miliwn o incwm arall yn ystod 2015-16 (2014-15: £20.5 miliwn). Y rheswm pennaf dros y lleihad o £12.5 miliwn yw diwedd cyllid prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop a chyllid untro gan UKRPIF i Brifysgol Abertawe yn 2014-15.

Cyfanswm y gwariant yn 2015-16 oedd £136.7 miliwn (2014-15: £375.8 miliwn (ailddatganwyd)). Mae £134.0 miliwn (2014-15: £373.2 miliwn (ailddatganwyd)) o'r swm hwn yn berthnasol i gyllid i addysg uwch a £2.8 miliwn (2014-15: £2.6 miliwn) i'n costau ni ein hunain wrth reoli a dosbarthu cyllid grant i'r sector addysg uwch. Gellir priodoli'r lleihad yn y cyntaf i'r newid yn y dull o gyllido grantiau ffioedd hyfforddi i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Costau gweithredu net y flwyddyn oedd £128.7 miliwn (2014-15: £355.3 miliwn (ailddatganwyd)). Roedd y swm yng nghronfa gyffredinol gronnol ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2016, ar ôl credydu'r cyllid cymorth grant y cyfeirir ato uchod, yn £14.5 miliwn (31 Mawrth 2015: £17.4 miliwn (ailddatganwyd)). Bydd y cyfrifon ariannol bob amser yn cofnodi canlyniadau costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn fel canlyniad i gredydu cyllid a dderbyniwyd i gronfa wrth gefn gyffredinol ecwiti trethdalwyr yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae ein gweithgareddau'n cael eu cynllunio hefyd i sicrhau bod yr arian parod sy'n cario drosodd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn parhau oddi mewn i'r ddau y cant o gyfanswm y cymorth grant ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

Roedd y gwariant ar eiddo, peiriannau ac offer yn ystod y flwyddyn yn £36k.

Gwariant y Cyngor 2015-16 (£'000)



Dangosyddion perfformiad ariannol allweddol eraill

Roedd balans yr arian parod ar 31 Mawrth 2016 yn £1.6m, gan gynrychioli 1.27% o gyfanswm y cyllid cymorth grant sydd ar gael (2014-15: £4.1m, 1.14%) ac roedd yn parhau oddi mewn i'r uchafswm o 2% o gyfanswm y cyllid ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, fel y pennir gan y Ddogfen Fframwaith.

Mae CCAUC yn gweithredu o dan darged Llywodraeth Cymru i dalu i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn anfoneb ddilys. Yn 2015-16, talodd CCAUC 95.1% o'i anfonebau o fewn deg diwrnod gwaith, gyda chyfnod talu o 2.2 diwrnod ar gyfartaledd (2014-15: 96.5% a chyfartaledd o 1.7 diwrnod).

Cynaliadwyedd

Ein prif swyddogaeth yw datblygu a chynnal addysg uwch o safon ryngwladol ragorol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r sefydliad yn cynnwys 46 aelod o staff, ac aelodau'r Cyngor ar ben hynny, ac maent yn gweithredu o un adeilad a rennir yng ngogledd Caerdydd. Mae ein prif effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd yn deillio o'n defnydd o adeilad y swyddfa a theithiau busnes.

Mae CCAUC wedi bod yn cofnodi ei berfformiad amgylcheddol ers 2007-08. I gyd-fynd â hyn defnyddiwyd system reoli amgylcheddol, sydd wedi creu gwelliannau yn ein prosesau rheoli amgylcheddol. Hefyd mae CCAUC wedi ceisio sbarduno gwelliannau drwy gaffael, fel y gwelir gan y camau gweithredu sydd wedi'u datgan yn y Cynllun Caffael Cynaliadwy a Gwelliannau Amgylcheddol blynyddol a'r defnydd o gontractau fframwaith, sy'n cynnwys lefel uwch o berfformiad amgylcheddol nag y byddem ni, yn realistig, wedi gallu ei gyflawni wrth drefnu'n uniongyrchol gyda'r contractwyr hyn. Cydlynir y datblygiadau a'r camau gweithredu gofynnol o dan y system rheoli amgylcheddol drwy gyfrwng Grŵp Iechyd a Diogelwch / Cynaliadwyedd CCAUC.

Ym mis Ebrill 2016, daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym. Mae hon yn pennu dyletswyddau pellach i CCAUC er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori'n llawn yn ein penderfyniadau a'n prosesau rheoli, mewn perthynas â chamau gweithredu mewnol a'n hymgysylltu â'r sector addysg uwch.

Defnydd o Drydan

Yn 2013-14 roedden ni'n llwyddiannus wrth annog y landlord i gyflwyno is-fesuryddion ar wahân ar gyfer pob un o loriau'r adeilad, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl a chywir am ddefnydd trydan pob rhan o'r adeilad, ynghyd â biliau cywir. Yn 2014-15 gosododd y landlord gyfarpar optimeiddio folteddau sydd i gyfrif, heb os, am rai o'r arbedion ynni a wnaed yn ein defnydd o drydan yn ystod y flwyddyn honno (9.5%). Yn 2015-16, mae gaeaf mwyn arall wedi bod o gymorth i sicrhau gostyngiad pellach o 3.2% yn y defnydd ac mewn allyriadau C02.



Tabl1

Teithiau busnes

Cafwyd 60% yn llai o allyriadau carbon yn sgil teithiau busnes yn ystod y cyfnod 2008-09 i 2012-13. Ers hynny, mae'r teithiau busnes wedi bod yn eratig gyda chynnydd o fwy na 40% mewn milltiroedd busnes yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a lleihad o 10.6% yn 2015-16. Mae'r defnydd wedi'i gofnodi o gynadleddau fideo, yn lle teithio, wedi cynyddu hefyd yn 2015-16, gydag arbedion o fwy na 10,000 o filltiroedd wedi'u cofnodi o gymharu â 7,225 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hefyd yn werth nodi bod defnydd o gynadleddau fideo wedi arbed bron i 240 o oriau o amser y staff.



Tabl 2

Mae elfennau'r teithiau busnes yn amrywiol o flwyddyn i flwyddyn gyda newidiadau sylweddol yn amlwg rhwng teithio ar drên a staff yn defnyddio eu cerbydau eu hunain.



Tabl 3

Lleihau gwastraff

Mae TGCh diangen yn ffynhonnell sylweddol bosib o wastraff peryglus i CCAUC. Yn sgil newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth mae gofynion ar gynhyrchwyr i ailgylchu offer electronig gwastraff. Fodd bynnag, gall llawer o'r cyfarpar TGCh sydd dros ben gan CCAUC fod o wasanaeth pellach mewn amgylchedd sy'n llai beichus yn dechnegol. Mae'r cytundeb fframwaith blaenorol wedi dod i ben yn awr a bydd angen ei adnewyddu er mwyn ymdopi â'r gwaredu disgwyliedig ar TGCh yn 2016-17.

Mae CCAUC yn parhau i ddarparu system o wahanu'r sbwriel a gesglir fel bod posib ailgylchu papur, plastig a metelau. Gwneir darpariaeth ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus arall, gan gynnwys batris a bylbiau golau fflworoleuol, drwy gyfrwng y contractwyr cynnal a chadw presennol. Mae'r holl fatris sy'n cael eu prynu'n rhai y mae posib eu hailwefru, lle bo hynny'n bosib.

Crynodeb

Mae'r flwyddyn bresennol wedi gweld cynnydd ym mhob un o'r meysydd perfformiad amgylcheddol rydym yn ceisio eu mesur (trydan, teithiau busnes a lleihau gwastraff). Mae'n galonogol gweld defnydd cynyddol o gynadleddau fideo, sydd wedi cynyddu bron i 25% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r lleihad yn y defnydd o bapur wedi parhau bob blwyddyn am y 5 mlynedd diwethaf, wrth i ddefnydd o bapur leihau drwy ddefnyddio mwy a mwy ar systemau ffeilio electronig. Mae'r defnydd o bapur oddeutu 40% yn awr o'r defnydd a gofnodwyd gyntaf yn 2007-08. Cyflawnwyd y lleihad cymedrol mewn defnydd o drydan yn erbyn cefndir o aeaf mwyn eto o gymharu â 2014-15. Mae'r holl leihad sydd wedi'i sicrhau yn cynnig manteision ariannol yn ogystal â manteision amgylcheddol.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2016

Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Aelodaeth y Cyngor

Bu'r aelodau canlynol yn gwasanaethu ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd:

Cadeirydd

Mr David Allen OBE *(Tymor cyntaf: 5 Mai 2014 tan 4 Mai 2017). Cyn Gofrestrydd a Dirprwy Brif Weithredwr Prifysgol Caerwysg*

Prif Weithredwr (a Swyddog Cyfrifyddu)

Dr David Blaney

Aelodau eraill o'r Cyngor:

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Y Fonesig Alexandra (Sandra) Burslem, Dirprwy Gadeirydd	Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Fetropolitan Manceinion	Tymor cyntaf: 01/12/08 tan 30/11/11 Ail dymor: 01/12/11 tan 30/11/14 Trydydd tymor: 01/12/14 tan 30/11/17	Pwyllgor Datblygu Strategol (Cadeirydd) Pwyllgor Adnoddau Dynol Pwyllgor Cydnabyddiaeth
Mrs Bethan Guilfoyle CBE	Cyn-Bennaeth Ysgol Gyfun Treorci	Tymor cyntaf: 01/04/10 tan 31/03/13 Ail dymor: 01/04/13 tan 31/03/16 Trydydd tymor: 01/04/16 tan 31/03/17	Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr (Cadeirydd) Pwyllgor Asesu Ansawdd Pwyllgor Datblygu Strategol

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Enw	Hanes personol	Tymor yn y swydd	Aelodaeth o bwyllgorau
Mr David Mason	Cyn-Bennaeth/Prif Weithredwr Coleg Gwent	Tymor cyntaf: 01/04/10 tan 31/03/13 Ail dymor: 01/04/13 tan 31/03/16 Trydydd tymor: 01/04/16 tan 31/03/17	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Cadeirydd)
Dr Arun Midha	Cyn Aelod Lleyg o'r Cyngor, Prifysgol Abertawe a Chyfarwyddwr Strategaeth, Ysgol Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd	Tymor cyntaf: 07/04/15 tan 06/04/18	Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Yr Athro Katherine (Leni) Oglesby OBE	Cyn-Uwch Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Teesside	Tymor cyntaf: 01/12/08 tan 30/11/11 Ail dymor: 01/12/11 tan 30/11/14 Trydydd tymor: 01/12/14 tan 30/11/17	Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd (Cadeirydd) Pwyllgor Asesu Ansawdd (Cadeirydd) Pwyllgor Datblygu Strategol
Yr Athro Mark Smith	Is-Ganghellor Prifysgol Caerhirfryn	Tymor cyntaf: 01/01/13 tan 31/12/15 Ail dymor: 01/01/16 tan 31/12/18	Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu
Yr Athro Stephen Tomlinson CBE	Cyn Is-Ganghellor Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	Tymor cyntaf: 01/01/13 tan 31/12/15	Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu
Yr Athro Robin Williams CBE, FRS	Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe	Tymor cyntaf: 01/08/09 tan 31/07/12 Ail dymor: 01/08/12 tan 31/07/15 Trydydd tymor: 01/08/15 tan 31/07/18	Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu (Cadeirydd) Pwyllgor Datblygu Strategol

Mr Ewart Wooldridge CBE	Cyn-Brif Weithredwr Sefydliad Arweinyddiaeth Addysg Uwch	Tymor cyntaf: 01/01/13 tan 31/12/15	Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd tan 31/12/15) Pwyllgor Cydnabyddiaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Dr Colin Wyatt	Ymgynghorydd annibynnol a Chyn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes, Imperial College Llundain	Tymor cyntaf: 22/04/15 tan 21/04/18	Pwyllgor Adnoddau Dynol (Cadeirydd o 01/01/16) Pwyllgor Cydnabyddiaeth Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor Penodiadau (sy'n cynnwys ymhlith ei aelodau Gadeiryddion y pwyllgorau eraill a restrir uchod) a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

Roedd y Prif Weithredwr yn aelod o'r Pwyllgor Datblygu Strategol.

Ym mis Gorffennaf 2015 daeth y Pwyllgor Asesu Ansawdd a'r Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr i gymryd lle'r Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd.

Arsylwyr a benodir gan Lywodraeth Cymru

Mr Huw Morris,
Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru

Mr Neil Surman
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

Cyfansoddiad y Bwrdd Rheoli

Mae Bwrdd Rheoli CCAUC yn gyfrifol am ein gwaith rheoli a gweithredu.

Mae'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol, y Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol.

Datgan buddiannau

Mae manylion y buddiannau sydd wedi'u datgan gan aelodau'r Cyngor ar gael ar ein gwefan
http://www.hefcw.ac.uk/council_and_committees/council_members/council_members.aspx

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Dan baragraff 16(2) atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mae Gweinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wedi cyfarwyddo CCAUC i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar ffurf ac ar sail yr hyn a nodwyd yng Nghyfarwyddyd y Cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun clir a theg o sefyllfa CCAUC ac o'n hincwm a'n gwariant, ein henillion a'n colledion cydnabyddedig, a'n llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon rhaid i'n Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, ac yn benodol, rhaid iddo:

• gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

• gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

• datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, wedi cael eu rhoi ar waith, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y cyfrifon; a

• paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi dynodi mai'r Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifyddu CCAUC. Amlinellir cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, sy'n cynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano ac am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau CCAUC, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Hyd y gwn i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni ac rwyf i, fel y Swyddog Cyfrifyddu, wedi cymryd yr holl gamau y mae'n ofynnol i mi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Rwyf hefyd yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn gyffredinol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac rwyf yn ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r penderfyniadau gofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2016

Datganiad Llywodraethu

Cwmpas y cyfrifoldebau

Fel Swyddog Cyfrifyddu CCAUC, rwyf yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, a'i Swyddog Cyfrifyddu, at ddibenion cyflawni fy nghyfrifoldeb o gynnal systemau cadarn ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r systemau hyn yn ategu'r hyn a gyflawnir trwy ein polisïau a'n hamcanion strategol, wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau CCAUC yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*. Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod yr arian a'r asedau cyhoeddus a neilltuir i CCAUC yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Rwyf hefyd yn cydnabod fy nghyfrifoldebau o ran y cyllid a ddarperir i CCAUC sy'n cael ei ddyrannu i sefydliadau addysg bellach ac uwch, ac eraill, ar gyfer addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig.

Datblygiadau yn y flwyddyn

Ers dechrau blwyddyn ariannol 2015-16, mae'r elfen o'n cyllid grant a oedd yn gysylltiedig yn flaenorol â thaliadau grant ffioedd hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru wedi cael ei rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd ein cyllideb ar gyfer 2015-16 wedi gostwng 65%, gan gyfateb i'r swm yr amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai ei angen i dalu ymrwymiadau grant ffioedd hyfforddi'r flwyddyn sydd i ddod.

Mae ein grant sy'n weddill i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru'n parhau â'i ffocws strategol ar roi sylw i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau ein Cyngor ac mae'n ystyried disgwyliadau'r Gweinidog, fel y nodir yn y llythyr gorchwyl blynyddol i CCAUC. Dyrennir cyllid grant Addysg Uwch i ddarparwyr Addysg Uwch ar sail Blwyddyn Academaidd, sef y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf. Mae'r Flwyddyn Academaidd yn gorffen ar yr un pryd â'r flwyddyn ariannol ar gyfer sefydliadau addysg uwch a phellach. Mae ein cylchlythyr dyraniadau cyllid grant blynyddol yn rhoi manylion am y ddarpariaeth rydym yn ei chyllido a'r sail ar gyfer dosbarthu'r cyllid hwnnw rhwng darparwyr. Cyhoeddwyd cylchlythyr blwyddyn academaidd 2015/16 eisoes ac mae ar gael ar ein gwefan[6].

Mae'r lleihad yn y cyllid sydd ar gael i CCAUC ei ddosbarthu'n effeithio'n sylweddol ar ddylanwad ein polisïau, ac felly mae'n anos dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod meysydd blaenoriaeth allweddol yn cael eu cyflawni. Y mecanwaith allweddol sydd gennym ar waith ar hyn o bryd er mwyn gwneud hynny yw ein cyfrifoldeb penodol i gymeradwyo cynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu eu hymrwymiad i fuddsoddi cyfran resymol o'u hincwm o ffioedd dysgu,sydd dros y gyfradd ffioedd sylfaenol o £4,000, mewn mesurau i wella cyfle cyfartal ac i hyrwyddo addysg uwch. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y newid polisi, gan symud oddi wrth grantiau sefydliadol CCAUC i system lle mae cyfran sylweddol o incwm y sefydliadau'n dod o ffioedd dysgu myfyrwyr, yn golygu bod angen deddfwriaeth newydd a system reoleiddio ddiwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Felly, cyflwynodd ddeddf newydd, Deddf Addysg Uwch (Cymru), a ddaeth yn gyfraith ar 12 Mawrth 2015. Mae rhagor o fanylion am ei chyflwyno ar gael tua diwedd y Datganiad Llywodraethu hwn.

[6] Cylchlythyr W16/16HE, *Dyraniadau Cyllido CCAUC 2016/17* (www.hefcw.ac.uk/publications/circulars/circulars.aspx)

Fframwaith Llywodraethu

Rydym yn gyfrifol am weinyddu'r adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch. Rydym yn cydweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at bolisïau addysg uwch yng Nghymru ac rydym yn cydweithio â darparwyr addysg uwch i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau polisi hynny. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, yn sicrhau bod fframwaith ar waith ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, ac yn craffu ar berfformiad ariannol, llywodraethol a risg prifysgolion.

Caiff ein Cyngor ei benodi gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn unol â gofynion Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Fel Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr, rwyf yn aelod o'r Cyngor. Ym mis Mai 2014, penododd Llywodraeth Cymru Gadeirydd newydd i'r Cyngor. Yn ystod y flwyddyn roedd 12 aelod o'r Cyngor, sy'n Gyngor llawn, a'r cydbwysedd rhwng y rhywiau oedd naw aelod gwrywaidd (gan gynnwys y Cadeirydd) a thri aelod benywaidd. Ym mis Rhagfyr 2015, daeth dau aelod gwrywaidd o'r Cyngor i ddiwedd eu tymor gyda'r Cyngor ac ni chawsant eu hailbenodi gan y Gweinidog. Felly, ar ddiwedd 2015-16, roedd y Cyngor yn cynnwys 10 aelod.

Gwnaeth y Cyngor gwrdd ar chwe achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16. Allan o 68 o gyfleoedd i aelodau fynychu yn ystod y flwyddyn, y cyfanswm o ran mynychu oedd 67.

Mae dau arsylwr o Lywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) a Chyngor Cyllido'r Alban (SFC). Mae Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Cymru) yn mynychu fel arsylwr hefyd. Yn yr un modd, mae gennym ni statws arsylwr yng nghyfarfodydd HEFCE ac SFC. Caiff y Cyngor ei ategu gan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg; Asesu Ansawdd; Adnoddau Dynol; Cydnabyddiaeth; a Phenodiadau, a chan dri phwyllgor cynghori strategol (Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr; Ymchwil, Arloesi ac Ymgysylltu; a Datblygu Strategol) sy'n cwmpasu meysydd polisi addysg uwch sy'n bwysig i'n cylch gwaith a'n cyfrifoldebau statudol. Caiff cefndir a datganiad buddiannau aelodau'r Cyngor, a strwythur ac aelodaeth y pwyllgorau, ynghyd â gwybodaeth arall am lywodraethu corfforaethol, eu cyhoeddi ar ein gwefan. Ategir y Cyngor gan bwyllgor ymgynghorol ledled y DU: Pwyllgor Ymgynghorol Addysg Gofal Iechyd y DU.

Mae gennym Bolisi Cwynion sy'n seiliedig ar y Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a gynhyrchwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ein herbyn yn ystod 2015-16.

Rydym yn cynnal adolygiad effeithiolrwydd hunanasesu blynyddol o'n trefniadau llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys arfarniad o'r Cyngor, gan gynnwys perfformiad ei aelodau, gan y Cadeirydd drwy drafodaethau ag aelodau a thrwy gymharu ein trefniadau llywodraethu â Chod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor Adrodd Ariannol. Rydym hefyd yn cynnal adolygiadau blynyddol o'n dogfennau llywodraethu corfforaethol allweddol ac yn adolygu cylchoedd gwaith holl bwyllgorau'r Cyngor. Yn 2015-16 cynhaliodd y Cyngor ymarfer adolygu hunanasesu manwl yn seiliedig ar holiaduron a lenwyd gan bob aelod, a thrafodwyd y canlyniadau yn un o Weithdai'r Cyngor. Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod, yn gyffredinol, yn fodlon gydag effeithiolrwydd a phriodolrwydd ei brosesau a'i arferion llywodraethu, gan gynnwys o ran ansawdd y wybodaeth a'r data a ddarperir drwy bapurau'r Cyngor a'r pwyllgorau. Cytunodd y Cyngor bod mwy i'w wneud i geisio lleihau dwysedd y gwaith papur a hefyd, er mwyn gwella effeithlonrwydd, byddai'n edrych ar opsiynau ar gyfer symud at ddosbarthu electronig llawn ar bapurau'r Cyngor.

Rydym o'r farn bod ein prosesau'n dal i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Llywodraethu Corfforaethol cyn belled ag y bo'n berthnasol i Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ers adolygiad yn 2013 o ffyrdd newydd o weithio, rydym wedi parhau yn ystod 2015-16 i ganfod ffyrdd o wneud gwell defnydd o amser y Cyngor a'r pwyllgorau, gan gynnwys mwy o ffocws strategol i fusnes.

Rydym yn cyflawni ein cyfrifoldeb cyfreithiol o sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i asesu ansawdd addysg mewn sefydliadau a ariennir drwy ein Pwyllgor Asesu Ansawdd. Cynhelir asesiadau ansawdd yn bennaf gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, sy'n darparu adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd am ganlyniadau adolygiadau, ac mae hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Asesu Ansawdd a'r Cyngor. Mae'r adroddiad ar gyfer 2014-15 ar gael ar ein gwefan. Yn ystod blwyddyn academaidd 2015-16 cynhaliodd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Adolygiadau Sefydliadol o: Prifysgol De Cymru; Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Grŵp Llandrillo Menai; a Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot. Mae adroddiadau adolygu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn cynnwys argymhellion a nodweddion a ystyrir yn arfer da, ac maent ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Ym mis Medi 2014, rhoddwyd gwybod i'n Cyngor y byddai HEFCE yn gwneud tendr cyhoeddus ar gyfer contract yn y dyfodol i asesu ansawdd addysg uwch yn Lloegr. Barn y Cyngor oedd y byddai'n ddymunol aros yn rhan o ddull asesu ansawdd sy'n gweithredu ledled y DU, ac felly cytunodd y byddem yn cymryd rhan yn yr ymarfer caffael. Dechreuodd y broses adolygu yn 2014-15, a disgwylir y bydd yr ymgynghoriad ar drefniadau ansawdd diwygiedig yn dod i ben yn 2015-16. Ar ôl hynny, cynhelir cynllun peilot o'r trefniadau newydd yn 2016/17, ac wedyn byddant yn gwbl weithredol yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen.

Cynhaliwyd Adolygiad Cydymffurfio Blynyddol cynhwysfawr gennym yn erbyn y gofynion a bennwyd ar ein cyfer yn y *Ddogfen Fframwaith*, a oedd yn dangos ein bod yn cydymffurfio'n llawn.

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg bum aelod, ac mae dau ohonynt (gan gynnwys y Cadeirydd) yn aelodau o'n Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn ac mae'r Prif Weithredwr; y Pennaeth Archwilio Mewnol; cynrychiolwyr yr archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru); ac aelodau perthnasol o'n staff yn bresennol yn y cyfarfodydd. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor i'n Cyngor ar ôl pob cyfarfod, ac mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd unrhyw faterion nodedig i'r Cyngor. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys CCAUC a'n gwaith sicrwydd gyda'r sector AU. Mae'r Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i'n Cyngor ac mae hwn yn cynnwys barn y Pwyllgor ynghylch llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Adolygodd y Pwyllgor y camau gweithredu yr oedd wedi cytuno arnynt y llynedd fel rhan o'r ymarfer hunanasesu i adolygu effeithiolrwydd, a ddefnyddiwyd i feincnodi gweithredoedd y Pwyllgor yn erbyn rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer pwyllgorau archwilio, yn seiliedig ar Lawlyfr Pwyllgorau Archwilio Trysorlys EM. Hefyd adlewyrchodd y Pwyllgor ar gymwyseddau ei aelodaeth o gymharu â'r arferion gorau a gafodd eu datgan yn Llawlyfr Trysorlys EM. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod ei aelodaeth yn cynnwys yr ystod lawn o gymwyseddau - sgiliau, gwybodaeth a phrofiad - sydd wedi'u nodi'n ddymunol ar gyfer pob pwyllgor archwilio. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod hyn yn parhau'n wir yn dilyn rhai newidiadau i'w aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Hefyd cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad blynyddol o'i gylch gwaith gan gytuno ar rai mân newidiadau, y cytunwyd arnynt wedyn gan y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn parhau'n fodlon ei fod, yn gyffredinol, yn gweithredu yn unol â'r arferion gorau a dderbynnir ar gyfer pwyllgorau archwilio.

Ni thynnwyd sylw at unrhyw broblemau mawr gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer 2015-16, ac eithrio nodi rhai pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol sefydliadol.

Cynigiwyd yr opsiynau canlynol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol i'r Prif Weithredwr a'r Cyngor:

- Cynhaliwyd digon o waith archwilio mewnol i allu dod i gasgliad rhesymol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd gwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor, a'i brosesau rheoli mewnol.

- Mae trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol CCAUC wedi bod yn ddigonol ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ac felly gall y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu ddibynnu arnynt i raddau rhesymol.

Rydym yn cydweithio â'r sector addysg uwch ac mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth, yr Uned Herio Cydraddoldeb, y Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch, a'r Academi Addysg Uwch. Mae'r sefydliadau partner hyn yn cynnig ffynonellau defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i ni, sy'n ein galluogi i feincnodi perfformiad a gweithgareddau yng Nghymru yn erbyn gweddill y DU, ac mae'r trefniadau'n manteisio ar arbedion maint oherwydd bod gan y sefydliadau gylchoedd gwaith ledled y DU. Fel cyllidwr pennaf AU y DU, mae HEFCE yn arwain y gwaith o oruchwylio'r cyrff hyn a, lle bo hynny'n briodol, mae cytundebau atodol ar waith rhwng CCAUC a'r corff i ddarparu ar gyfer unrhyw ofynion sy'n benodol i Gymru. Rydym yn monitro'r hyn a gyflawnir gan y sefydliadau yma ar lefel Cymru. Mae gan HEFCE gyfrifoldeb hefyd am oruchwylio'r Brifysgol Agored fel sefydliad, ond rydym yn cydweithio'n uniongyrchol â'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar yr hyn a ddarperir ganddi yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi datblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd cyfrwng Cymraeg, drwy gyfrwng cynlluniau ysgoloriaeth y Coleg, ei gynllun staffio academaidd a'r prosiectau datblygu strategol. Mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Elusennau sy'n amlinellu sut byddwn yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth er mwyn cydgysylltu ein gweithgareddau rheoleiddio mewn perthynas â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd ag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, o dan delerau'r Ddogfen Fframwaith rhwng yr Adran a CCAUC. Mae staff yr Adran a CCAUC yn cael cyfarfod chwarterol, sy'n galluogi'r Adran i fonitro cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredol a'n dangosyddion perfformiad allweddol, ac i fonitro'r gofrestr risgiau a'r camau yr ydym yn eu cymryd i leihau risg. Cawsom ein llythyr gorchwyl ar gyfer 2015-16 ym mis Mawrth 2015 a chyflwynwyd ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2015-16 i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2015. Fe'n hysbyswyd ym mis Medi 2015 fod y Gweinidog Addysg wedi nodi'r Cynllun a'i fod yn fodlon gyda'r fformat wedi'i adolygu yr oeddem wedi'i gyflwyno fel ymateb i gais gan ein hadran noddi. Mae ein Cyngor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau ein cynllun gweithredol, ac adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn targedau ein strategaeth gorfforaethol.

Mae'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau yn cael cyfarfod chwarterol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, sy'n galluogi'r Gweinidog i fonitro'r hyn rydym yn ei gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol, ac yn rhoi cyfle inni gynghori'r Gweinidog.

Effeithiolrwydd y system rheoli mewnol

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheoli mewnol. Fe'm cefnogir yn y broses hon gan gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chan aelodau eraill o'm tîm o uwch reolwyr. Caiff fy adolygiad ei lywio hefyd gan waith yr archwilydd mewnol a'n rheolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a chan sylwadau gan archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheoli.

Mae ein system rheoli mewnol yn darparu fframwaith sicrwydd ar gyfer rheoli risgiau sy'n ymwneud â'n rheolaethau gweithredol ac ariannol mewnol, a'n rheolaethau mewn perthynas â sefydliadau sy'n derbyn arian gennym. Am y rheswm hwn mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a ariennir gennym gydymffurfio â Memorandwm o Sicrwydd ac Atebolrwydd, sy'n ein helpu i ddiogelu atebolrwydd o ran defnyddio'r arian cyhoeddus a ddarperir iddynt mewn ffordd reolaidd a phriodol. Rydym yn ystyried ystod gynhwysfawr o ddychweliadau a ddarperir inni gan sefydliadau - gan gynnwys eu cyfrifon blynyddol, cynlluniau ffioedd a chynlluniau strategol - fel rhan o'n gwaith o sicrhau y caiff buddsoddiad cyhoeddus mewn sefydliadau ei warchod. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ceisio cadarnhau bod yr arian cyhoeddus a ddarparwyd i sefydliadau wedi cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd.

Mae pob un o'r rheolaethau blynyddol allweddol hyn – y gofrestr risgiau, y datganiadau ariannol, adroddiad yr archwilwyr allanol a'r sylwadau a wnaed am hwnnw, adroddiadau archwilio mewnol, adolygiadau o risgiau sefydliadol ac adroddiadau sicrwydd – wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, sy'n cyflwyno adroddiad i'n Cyngor. Mae ein systemau rheoli wedi nodi rhai materion bach lle'r oedd angen camau gweithredu penodol i reoli'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â hwy. Nid oedd unrhyw wendid sylweddol o ran ein dulliau rheoli mewnol yn 2015-16 y mae angen eu nodi yn y fan yma.

Dull o reoli risg

Rydym yn gweithredu system rheoli mewnol a ddyluniwyd i: nodi a blaenoriaethu'r risgiau o ran cyflawni ein polisïau a'n hamcanion strategol; canfod y tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'r effeithiau pe baent yn cael eu gwireddu; a'u rheoli mewn ffordd effeithiol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio ein prosesau rheoli risg ar ran y Cyngor.

Mae pob tîm yn rheoli cofrestr risgiau sy'n cael ei hadolygu dair gwaith y flwyddyn. Rwyf i'n rheoli cofrestr risgiau ochr yn ochr â'r cynllun gweithredol, ac mae hwn yn gyfrwng i graffu ar ein perfformiad gweithredol, a gellir gwerthuso'n dadansoddiad o risgiau yn ei herbyn. Os yw'r sgôr gyfunol ar gyfer tebygolrwydd ac effeithiau uwch ben y lefel goddefiant a gytunwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, caiff y risg ei rhoi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Caiff y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ei hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg dair gwaith y flwyddyn a chaiff y canlyniadau eu hystyried gan ein Cyngor.

Yn ogystal â'r prif gofrestri risgiau, mae pob tîm yn llunio cofrestr o risg twyll a llwgrwobrwyaeth. Caiff y risgiau sydd uwchlaw'r lefel goddefiant eu cynnwys ar y Gofrestr Gorfforaethol o Risg Twyll a Llwgrwobrwyaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Cyngor yn derbyn adroddiadau cyson ar ein system o adolygu risgiau sefydliadol a'r broses a ddefnyddir gennym i asesu a monitro proffil risg cyffredinol pob sefydliad AU.

Yn ystod y flwyddyn, drwy drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, cytunwyd ar nifer o egwyddorion lefel uchel yn sail i adolygu ein dull presennol o reoli risgiau. Bydd hwn yn cael ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf drwy drafod gyda'r Cyngor.

Sicrwydd trethi ar gyfer cyflogeion nad ydynt ar y gyflogres

Ni wnaed unrhyw daliadau i gyflogeion nad ydynt ar y gyflogres eleni na'r llynedd.

Trefniadau chwythu'r chwiban

Mae gan CCAUC bolisi chwythu'r chwiban a gweithdrefnau ategol ar gyfer eu defnyddio gan y staff. Nod y polisi yw annog y staff i roi gwybod am faterion sy'n peri pryder priodol ac sydd o fudd cyhoeddus yn eu barn hwy, naill ai yn y gweithle neu'n allanol, am berygl, risg, camymarfer neu ddrwgweithred. Pan fydd staff yn rhoi gwybod am faterion o'r fath, rhaid i hynny ddigwydd heb iddynt ofni dial neu erlid, a rhaid gwarchod staff a CCAUC rhag honiadau di-sail a maleisus. Mae'r polisi hwn a'i weithdrefnau ategol ar gael i'r staff ar y fewnrwyd ac ar ein gwefan. Ni chafodd unrhyw faterion chwythu'r chwiban eu cofnodi yn ystod y flwyddyn ac felly nid yw'n bosib adrodd ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn. Bydd ein polisi a'n gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n ffurfiol y tro nesaf tua diwedd 2017, oni bai y rhoddir gwybod am unrhyw broblemau cyn hynny, gan annog newid y prosesau a ddefnyddir.

Risgiau sylweddol a ystyriwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn

Lleihad sylweddol yn y gyllideb

Ers cyflwyno'r drefn ffioedd newydd ym mlwyddyn academaidd 2012/13, mae'r cyllid sydd ar gael i ni i'w neilltuo i ddarparwyr Addysg Uwch wedi gostwng yn sylweddol. Rhwng blwyddyn academaidd (BA) 2011/12 a BA 2015/16, mae cyllid CCAUC i ddarparwyr AU yng Nghymru wedi gostwng £216m i £151m, gostyngiad o tua 60%, ar sail cost gynyddol grant ffioedd Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod hwnnw.

O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd am ostwng cyllid, mewn meysydd o flaenoriaeth strategol, gan gynnwys arloesi, y ddarpariaeth ran amser a chyllid strategol. Mae gweddill cyllid ailadroddus CCAUC yn cael ei neilltuo'n bennaf i'r meysydd ymchwil blaenoriaeth, i'r ddarpariaeth ran amser ac i bynciau drud (meddygaeth, deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio).

Mae risg y bydd y lleihad parhaus yn y cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi yn y ddarpariaeth Addysg Uwch yng Nghymru'n cael effaith niweidiol ar allu darparwyr Addysg Uwch Cymru i barhau i gystadlu'n llwyddiannus yn erbyn darparwyr eraill y DU a chystadleuwr yn fyd-eang o ran denu myfyrwyr a staff a sicrhau grantiau a chontractau ymchwil. Mae'r newidiadau cyllido'n effeithio ar ddarparwyr addysg uwch mewn ffyrdd gwahanol ac, o ganlyniad, bydd yr effaith ar gynaliadwyedd ariannol tymor hwy rhai darparwyr yn fwy sylweddol nag ar ddarparwyr eraill.

Adolygiadau Llywodraeth Cymru o gyllid addysg uwch ac o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer addysg ôl-orfodol yng Nghymru (Adolygiadau Diamond a Hazelkorn)

Yn ystod y flwyddyn, mae adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a'i gadeirio gan yr Athro Syr Ian Diamond i edrych ar faterion cysylltiedig â chyllido addysg uwch wedi parhau i wneud cynnydd. Bydd canlyniad yr adolygiad hwnnw, ac ymateb y Llywodraeth

i'w argymhellion, yn cael effaith sylweddol yn anochel ar y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru a'n gwaith ni yn y dyfodol. Rydym wedi parhau i weithio gydag ysgrifenyddiaeth yr adolygiad, gan ddarparu gwybodaeth yn unol â phob cais, ac rydym wedi eistedd fel arsylwr swyddogol gyda phanel yr adolygiad. Ochr yn ochr â hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i gynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gan roi sylw arbennig i rôl CCAUC. Unwaith eto, gallai ymateb y Llywodraeth i adroddiad yr Athro Hazelkorn arwain at oblygiadau mawr i CCAUC yn y dyfodol, gan gynnwys, o bosib, ei gau. Rydym wedi ymateb i'r broses hon yn bositif drwy weithio'n gadarnhaol gyda'r Athro Hazelkorn a gydag amrywiaeth o randdeiliaid eraill, i gynnig awgrymiadau ar gyfer y trefniadau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ond rydym yn aros am ymateb Llywodraeth Cymru.

Un o'r risgiau allweddol i CCAUC fel sefydliad yw sicrhau ein bod yn cynnal perthynas waith dda gyda Llywodraeth Cymru ac, yn benodol, ei hadran noddi. Rydym yn gweithio'n galed i geisio lleihau pob camddealltwriaeth a'r rhwystredigaeth sy'n codi o ganlyniad a byddwn yn parhau â'r ymdrechion hyn.

Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

Rydym mewn cyfnod pontio yn awr wrth weithredu Deddf AU (Cymru) 2015, a ddechreuodd yn ffurfiol ar 1 Medi 2015. Mae'r risg gorfforaethol allweddol sy'n gysylltiedig â CCAUC yn methu gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol wedi cael ei lleihau drwy sefydlu Grŵp Gweithredu Prosiectau mewnol, gan gynnwys sefydlu pedair ffrwd waith (cynllunio ffioedd; asesu ansawdd; cod rheoli ariannol; a datganiad o ymyriadau); cyswllt agos â Llywodraeth Cymru yn ganolog a thrwy ffrydiau gwaith; monitro agos ar weithredu amserlenni a risgiau. Hefyd, cynhaliwyd gweithdai gyda Llywodraeth Cymru a chyfnewidiwyd papurau (gan gynnwys cofnodion ac amserlenni) gyda Grŵp Prosiectau LlC. Paratowyd amserlenni clir gennym ar gyfer eu gweithredu a chafwyd cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen. Er hynny, mae'r gwaith ar ddatblygu trefniadau i roi sylw i ofynion y Ddeddf, a phenderfynu sut i'w rhoi ar waith, wedi bod yn helaeth. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori a datblygu Datganiad Pontio o Ymyriadau[7] yn rhoi sylw i sut byddai CCAUC yn defnyddio ei bwerau newydd yn ystod y cyfnod i weithredu'r Ddeddf yn llawn ym mis Medi 2017; gwaith gyda chyllidwyr eraill ar ddatblygu trefniadau asesu ansawdd; datblygu cyfarwyddyd cynlluniau ffioedd a mynediad ar gyfer 2017/18; a datblygu Cod Rheoli Ariannol drafft. Bydd y gwaith ar y meysydd hyn i gyd yn parhau yn 2016-17. Mae'r holl sefydliadau presennol sydd â chynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo gan CCAUC (yr holl brifysgolion presennol a'r SAU a gyllidir yn uniongyrchol) yn 'sefydliadau a reoleiddir' yn awr o dan delerau'r Ddeddf.

Datblygiadau yn Lloegr a'u heffaith bosib ar addysg uwch yng Nghymru

Fis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan Bapur Gwyrdd ar addysg uwch, 'Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice'.[8] Mae'r papur yn cyflwyno cynigion amrywiol a fyddai, er gwaetha'u ffocws ar addysg uwch yn Lloegr, yn cael effaith ledled y DU. Oherwydd hynny, dewisodd CCAUC ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd.[9] Ymhlith y meysydd a oedd yn peri pryder roedd

[7] www.hefcw.ac.uk/working_with_he_providers/he_wales_act_2015/statement_of_intervention.aspx

[8] www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474266/BIS-15-623-fulfilling-our-potential-teaching-excellence-social-mobility-and-student-choice-accessible.pdf

[9] www.hefcw.ac.uk/documents/publications/hefcw_responses_to_consultations/CCAUC%20response%20to%20BIS%20Green%20Paper%2015jan16.pdf

bwriad yr Adran ar gyfer Busnes, Arloesi a Sgiliau i sefydlu Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu yn Lloegr. Mae gan y cynghorau cyllido brofiad eang o weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion a rennir ar lefel y DU. Mae'r swyddogion yn gweithio gyda swyddogion LlC ac eraill i liniaru effaith y math yma o ddatblygiad rhag cael ei roi ar waith gan BIS, gam oddi wrth Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda HEFCE ar drefniadau gweithredu'r Fframwaith. Ymhlith y materion eraill i'w monitro mae cynigion i symud cyllid ymchwil yn Lloegr i gorff cyffredinol ar gyfer cyllid ymchwil ansawdd HEFCE ar gyfer Lloegr a Chynghorau Ymchwil y DU, a'r cynigion ar gyfer dadreoleiddio'r farchnad addysg uwch ymhellach yn Lloegr, gan gynnwys ar gyfer darparwyr elw.

Casgliad

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd o ran cynhyrchu'r datganiad llywodraethu blynyddol. Casgliad fy adolygiad yw bod ein strwythurau llywodraethu cyffredinol a'n strwythurau rheoli mewnol wedi bod yn briodol ar gyfer ein busnes, ac maent wedi gweithio'n foddhaol drwy gydol 2015-16.

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2016

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

Polisi cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr a’r pwyllgor cydnabyddiaeth

Caiff taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor ei bennu gan Lywodraeth Cymru. Rheolir taliad cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor gan Gynllun Talu Cadeiryddion, Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff y GIG, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2004.

Caiff cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'n agored i daliadau ar sail perfformiad.

Pennir taliad cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yn unol â'n system gyflogau a graddio, sy'n berthnasol i'r holl benodiadau staff. Caiff ein lefelau cydnabyddiaeth cyffredinol a’r cylch cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i’r holl staff gan gynnwys y cyfarwyddwyr, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Mae gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn flynyddol. Mae gan y pwyllgor, sy'n cynnwys o leiaf dau aelod o'r Cyngor ar unrhyw adeg, awdurdod a ddirprwywyd gan y Cyngor i ystyried materion sy'n effeithio ar dâl y Prif Weithredwr, a gallant wneud argymhellion ar gyfer cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.

Nid oedd unrhyw newid i gyflog y Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac, yn seiliedig ar adolygiad o’i berfformiad, gwnaeth argymhellion y dylai’r Prif Weithredwr dderbyn yr un cynnydd blynyddol â’r cynnydd a ddyfarnwyd i staff CCAUC ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Roedd y cynigion tâl ar gyfer staff yn dal i aros cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2016 ac felly roedd unrhyw ddyfarniadau taladwy i’r Prif Weithredwr eto i’w penderfynu ar ddiwedd y flwyddyn hefyd. Bydd asesiad y Pwyllgor o berfformiad y Prif Weithredwr yn 2014-15 yn sail i ddyfarniad tâl posib ar gyfer 2015-16. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal yn y cyfarfod o’r Pwyllgor ym mis Mai 2016.

Hawliadau pensiwn a chydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog)

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn aelodau'r Cyngor a'r uwch reolwyr.

Cydnabyddiaeth uwch gyflogeion (cyflog a phensiynau)*

Ffigur sengl ar gyfer cyfanswm y gydnabyddiaeth *

Enw a swydd	2015-16 Cyflog £'000	2014-15 Cyflog £000	2015-16 Buddiannau pensiwn £	2014-15 Buddiannau pensiwn £	Cyfanswm 2015-16 £'000	Cyfanswm 2014-15 £'000
David Allen (Cadeirydd) penodwyd 5 Mai 2014	20-25	20-25	-	N/A	20-25	20-25
Roger Thomas (Cadeirydd) ymddeolodd 4 Mai 2014	-	0-5	N/A	N/A	-	0-5
Dr David Blaney (Prif Weithredwr)	115-120	115-120	45,023	16,607	165-170	135-140
Celia Hunt (Cyfarwyddwr Datblygiad Strategol)	75-80	75-80	30,404	43,511	105-110	120-125
Bethan Owen (Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol)	75-80	75-80	32,628	39,151	110-115	115-120

Noder: Nid oedd buddion nad oeddent yn ariannol na thaliadau bonws yn 2015-16 nac yn 2014-15 ar gyfer yr uchod.

Cyfanswm cyflog David Allen ar gyfer y flwyddyn 2014-15 oedd £21,963 (am y cyfnod 5 Mai 2014 tan 31 Mawrth 2015). Cafodd Mr Allen gydnabyddiaeth o £5,076 y flwyddyn fel aelod o'r Cyngor yn 2013-14 a than iddo ddod yn Gadeirydd ar 5 Mai 2014. Cyfanswm cyflog Roger Thomas ar gyfer y flwyddyn 2014-15 oedd £2,209. Gwnaeth Mr Thomas ildio'i hawl i'w gyflog ar gyfer y ddwy flynedd a dewisodd i'r tâl gael ei roi i elusen gofrestredig. Y cyflog cyfwerth mewn blwyddyn lawn yn 2014-15 ar gyfer David Allen a Roger Thomas oedd £24,264.

Cyfrifir y ffigurau 'Buddion pensiwn' uchod gan ein gweinyddwyr pensiynau, at ddibenion datgelu. Cyfrifir y ffigurau hyn fel y 'cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn' (gweler tabl 'Pensiynau uwch-gyflogeion' isod) a luosir gydag 20, gan ychwanegu'r 'cynnydd gwirioneddol' at unrhyw gyfandaliad a thynnu ymaith unrhyw gyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn ystod y flwyddyn ariannol.

Pensiynau uwch gyflogeion *

Enw	Swydd	Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/16 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31/03/16 £'000	CETV ar 31/03/15 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000
David Allen	Cadeirydd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Dr David Blaney	Prif Weithredwr	pensiwn 55-60	pensiwn 2.5-5.0	952	838	35
Celia Hunt	Cyfarwyddwr Datblygu Strategol	pensiwn 20-25 a chyfandaliad 60-65	pensiwn 0-2.5 a chyfandaliad 2.5-5.0	456	396	29
Bethan Owen	Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol	pensiwn 15-20	pensiwn 0-2.5	298	240	23

Datgeliadau cyflog a phensiwn*

Roedd Dr David Blaney a Bethan Owen yn aelodau o gynllun buddion diffiniedig Premiwm yn ystod y flwyddyn, tra roedd Celia Hunt yn aelod o gynllun buddion diffiniedig Clasurol. Mae'r ddau gynllun yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae buddion y cynllun Clasurol yn cynnwys cyfandaliad awtomatig wrth ymddeol, ond nid yw'r cynllun Premiwm yn cynnwys hyn (gweler 'pensiynau' isod).

Mae gan Dr David Blaney, y Prif Weithredwr, gontract parhaol sy'n nodi bod rhaid rhoi cyfnod rhybudd o dri mis. Ac eithrio'r posibilrwydd o dderbyn tâl yn lle cael rhybudd, nid oes darpariaethau penodol yn y contract ar gyfer rhoi iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar.

Mae gan gyfarwyddwyr gontractau parhaol hefyd sy'n gofyn am gyfnod rhybudd o dri mis a'r un amodau â'r Prif Weithredwr mewn perthynas â therfynu contract.

Nid yw'r Cadeirydd nac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac nid ydynt yn derbyn unrhyw fuddion pensiwn a delir gennym ni. Mae Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr) yn derbyn cyflog o £5,076 y flwyddyn, nad yw'n bensiynadwy (gweler tudalennau 26 i 28 am restr lawn o Aelodau eraill y Cyngor).

Mae'r holl gyflogau/taliadau a nodwyd yn rhai gros yn unig, am nad oedd neb o blith Aelodau'r Cyngor na'r uwch staff wedi derbyn cydnabyddiaeth neu fuddiannau eraill nad ydynt yn ariannol, ar wahân i'r hyn a ddatgelir isod.

* Mae'r wybodaeth hon yn agored i archwiliad

Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015, mae cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil wedi cael ei gyflwyno - Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu 'alpha', sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gyda'r oedran pensiwn arferol yn cyfateb i oedran pensiwn y wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd, a mwyafrif y rhai a oedd yn gwasanaethu eisoes, ag 'alpha'. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS).

Mae pedair adran i'r PCSPS: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (clasurol, premiwm neu glasurol plws), gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu manteision ar sail gyrfa lawn (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu ac mae costau buddion yn cael eu talu gan Senedd y DU bob blwyddyn. Ychwanegir at bensiynau clasurol, premiwm, clasurol plws a nuvos yn flynyddol yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau cyfredol y PCSPS a oedd o fewn deng mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng deng mlynedd a thair blynedd ar ddeg a phum mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywdro rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddion PCSPS yr holl aelodau sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn gweld y buddion hynny'n cael eu seilio ar eu cyflog terfynol pan maent yn gadael alpha. Gall aelodau a ymunodd o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis rhwng naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'a brynir ag arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau'r cyflogeion yn gysylltiedig â'u cyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer clasurol (ac aelodau alpha a oedd yn aelodau o clasurol yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer premiwm, clasurol plws, nuvos a holl aelodau alpha. Mae buddion yn y cynllun clasurol yn cronni ar gyfradd o 1/80^{fed} o enillion terfynol pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol wrth ymddeol. Ar gyfer premiwm, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 ^{fed} o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun clasurol, nid oes cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae clasurol plws yn gyfuniad sy'n cyfrifo buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn yr un modd â'r cynllun clasurol, ac yn cyfrifo buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl mis Hydref 2002 yn yr un modd â'r cynllun premiwm. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn enilledig yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun, ac mae'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion alpha yn cynyddu mewn ffordd debyg i nuvos, ond mai 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos gall aelodau ddewis cyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad hyd at yr uchafswm a bennwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 a rhwng 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 ymlaen (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y

cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 ymlaen er mwyn talu costau yswiriant buddiannau risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeol yn sgil salwch).

Y pensiwn cronnol a ddyfynnwyd yw'r pensiwn y mae hawl i'r aelod ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau clasurol, premiwm a chlasurol plws, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf rhwng 65 ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn: www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod

Gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn wedi'i asesu'n actwaraidd, a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, yw Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV). Y buddion a brisir yw'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod sy'n ddibynnol ar y cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall, pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch, sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn sydd mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi eu trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosib i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes, a allai fod yn ddyledus wrth gymryd buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol yn y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV y telir amdano gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn sgil chwyddiant a chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall). Mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Pensiynau cyffelyb (BBA)

Mae trefniant pensiwn BBA yn rhoi hawl i'r derbynnydd gael buddion sy'n debyg i'r rhai a ddarperir gan gynllun clasurol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, a ddisgrifiwyd uchod. Mae'n gosod rhwymedigaeth arnom ni a'r aelod dan sylw i wneud cyfraniadau yn unol â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Rydym ni'n gyfrifol am ariannu buddion pensiwn yn y dyfodol ac am gynnal cyfraniadau pensiwn. Mae gan gyn-Gadeirydd y Cyngor, yr Athro Syr Roger Williams, bensiwn BBA

Datgeliadau Cyflog Teg *

	2015-16 £'000	2014-15 £'000
Band yr aelod o staff sy'n cael ei dalu fwyaf (cyfanswm cydnabyddiaeth**)	115-120	115-120
	£	£
Canolrif cyfanswm y gydnabyddiaeth**	40,411	38,487
Cymhareb	3.0	3.1

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog yr uwch gyflogai sydd â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif cyflog staff y sefydliad.

Band cyflog ein huwch gyflogai â'r cyflog uchaf yn 2015-16 oedd £115,000 i £120,000 (2014-15: £115,000 i £120,000). Roedd hyn 3.0 gwaith (2014-15: 3.1) cyflog canolrifol yr holl staff, sef £40,411 (2014-15: £38,487).

**At ddibenion cyfrifo'r 'aelod o staff â'r tâl uchaf' a'r 'canolrif cyfanswm taliadau' uchod, mae 'cyfanswm taliadau' yn cynnwys costau cyflogau yn unig. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na'r 'buddion pensiwn' a ddangosir uchod.

Mae cymhareb y canolrif wedi lleihau ychydig o 3.1 yn y flwyddyn flaenorol i 3.0, yn sgil nifer o godiadau cyflog, heb fod newid wedi bod i'r cyflog uchaf a delir. Oherwydd natur ein gwaith, mae gennym gyfran uchel o staff ar lefel ganolig ac, o ganlyniad, ceir y canolrif a ddangosir uchod.

Yn 2015-16 (2014-15: dim), ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth oedd yn fwy na'r uwch gyflogai a'r cyflog uchaf. Roedd y gydnabyddiaeth yn amrywio o £16,610 i £120,000 (2014-15: £16,610 i £120,000).

Adroddiad staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Roeddem yn cyflogi cyfartaledd o 43 o staff cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016, fel a ganlyn:

	Niferoedd 2016	Niferoedd 2015
Uwch Reolwyr	3	3
Swyddfa'r Prif Weithredwr	7	7
Ymgysylltu Sefydliadol	13	13
Datblygu Strategol	10	11
Gwasanaethau Corfforaethol	10	10
	43	44

Nid oedd un aelod o staff o dan Ymgysylltu Sefydliadol uchod yn aelod parhaol o staff.

	Niferoedd 2016	Niferoedd 2015
Staff gyda chontract cyflogaeth parhaol yn y DU gyda ni	42	41
Staff eraill sy'n ymwneud â'n hamcanion	1	3
	43	44

Costau staff

(a) **Dadansoddiad ***

	2016			2015	
	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr)	Cyfanswm	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys y Prif Weithredwr)	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tâl a chyflogau	1,783	192	1,975	1,722	185	1,907
Costau nawdd cymdeithasol	156	20	176	145	17	162
Costau eraill yn ymwneud â phensiynau	381	29	410	336	34	370
Cyfanswm costau'r gyflogres	2,320	241	2,561	2,203	236	2,439
Staff ar secondiad	(17)	-	(17)	(49)	-	(49)
Llai: ffioedd costau rhaglenni	(447)	-	(447)	(474)	-	(474)
Costau gweinyddu'r gyflogres	1,856	241	2,097	1,680	236	1,916

Mae swm o £250k (2014-15 - £250k) wedi'i gynnwys yn y £447k (2014-15 - £474k) a godwyd ar gostau rhaglen yn 2015-16. Mae hyn yn gyfraniad at dâl a chyflogau costau rhedeg a drosglwyddwyd o gyllideb y rhaglen yn unol â chytundeb â Llywodraeth Cymru.

(b) **Pensiynau**

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir hefyd yn "alpha" - yn gynllun buddion nad yw'n cael ei ariannu ac a ddiffinnir gan fwy nag un cyflogwr, ond nid ydym yn gallu nodi ein cyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Rhoddodd Actiwari'r Cynllun werth ar y cynllun fel ar 31 Mawrth 2012. Gallwch gael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2015-16, roedd ein cyfraniadau cyflogwr o £380,106 yn daladwy i'r PCSPS (2014-15 - £359,062), gan gynnwys cyfraniadau CSOPS (alpha), ar un o bedair cyfradd ar ystod rhwng 20.0% a 24.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau gan y cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Caiff y cyfraddau cyfrannu eu pennu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn 2015-16, i'w talu pan mae'r aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i'r rhai sydd eisoes yn bensiynwyr.

Mae cyn-Gadeirydd y Cyngor yn derbyn buddion pensiwn cyffelyb (BBA) gyda'r PCSPS.

Ni ariennir darpariaeth pensiwn cyffelyb, a chaiff y buddion eu talu wrth iddynt fod yn ddyledus, ac fe'u gwarentir gennym. Nid oes cronfa ac felly nid oes arian dros ben na diffyg nac asedau. Cyfrifir atebolrwydd y cynllun am wasanaethau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth bob dwy flynedd, a gwnaed hyn ar ddiwedd 2014-15 a'r cyfanswm oedd £25,000 ar 31 Mawrth 2015.

(c) Nifer y staff yn ôl rhyw

	2016	2015
Gwryw		
Cyfarwyddwyr	1	1
Staff	14	15
Benyw		
Cyfarwyddwyr	2	2
Staff	29	31
	46	49

Noder: Yn y tablau uchod mae'r staff a gyflogir yn cael eu cofnodi fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn, fodd bynnag mae'r dadansoddiad o'r rhywiau'n cael ei gefnogi fel niferoedd gwirioneddol.

(d) Absenoldeb Salwch

	2016	2015
Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (%)	2.84	1.31
Niferoedd y dyddiau gwaith a gollwyd	342	161
Cost y dyddiau gwaith a gollwyd yn fras	£46,690	£21,929

Mae cost y dyddiau gwaith a gollwyd yn fras yn seiliedig ar gyflog ar lefel 4 (cam 4), lefel staff rheolwyr canol (gan gynnwys y costau gorbenion).

Rydym yn monitro absenoldeb salwch ar gyfradd o 2.84% o'r amser gweithio posib a gollwyd. Ar gyfer 2015-16 (2014-15 - 1.31%), er ei fod yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, mae'n parhau'n is o gymharu â'r rhan fwyaf o'r sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus (yr amser gweithio a gollwyd ar gyfartaledd yn ôl Adroddiad Arolygu Blynyddol Rheolaeth Absenoldeb CIPD 2014 - Gwasanaethau Cyhoeddus 4.1%; Addysg 4.4%; y Llywodraeth Ganolog 4.0%; Llywodraeth Leol 3.5%; Gwasanaethau Cyhoeddus Eraill 3.5%; Maint gweithlu'r sector cyhoeddus 1-49, 4.2%; a'r DU (ar draws pob sector) 3.7%).

* Mae'r wybodaeth hon yn agored i archwiliad

Polisïau staff a materion eraill

Rydym wedi cyflwyno a/neu adolygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau eleni:

- Gwyliau blynyddol
- Absenoldeb tadolaeth
- Cynllun egwyl mewn gyrfa
- Absenoldeb a rennir i rieni

Mae ymgynghoriad llawn gyda'r staff yn cael ei gynnal ar gyfer pob polisi, ar gyfer sylwadau ac i asesu effaith yn unol â chydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a chynaliadwyedd. Mae'r polisïau hyn yn cael eu hadolygu wedyn gan ein Cyngor Gwaith (gweler isod) a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol ar gyfer eu cymeradwyo, cyn cael eu gweithredu.

Ymwneud y cyflogeion

Mae cyfarfodydd a seminarau rheolaidd i'r staff yn gymorth i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n dda yn fewnol ac yn rhoi cyfleoedd i'r staff gyfrannu at ein ffordd o weithio. Mae Cyngor Gwaith, sy'n galluogi cynrychiolwyr i fynegi materion sy'n peri pryder i staff ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan undeb y PCS, yn cwrdd yn rheolaidd.

Yn 2000, cawsom ddyfarniad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Caiff y dyfarniad hwn ei ailasesu bob tair blynedd a chawsom ailachrediad ym mis Mehefin 2015.

Cydraddoldeb ac anabledd

Rydym yn ymroi i ddatblygu ein polisïau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod ein cyflogeion i gyd yn cael eu trin yn deg, y tu hwnt i unrhyw nodwedd warchodedig a ddiffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae ein polisi ar recriwtio'n seiliedig ar Egwyddorion Recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, sef bod penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Rydym wedi llwyddo i gael gwobr anabledd 'y Tic Dwbl' ac rydym yn benderfynol o fodloni'r pum ymrwymiad sy'n ymwneud â recriwtio, hyfforddiant, cadw staff, ymgynghori ac ymwybyddiaeth o anabledd. Cafodd y wobr hon ei hailasesu ym mis Ebrill 2015.

Yn unol â'r symbol anabledd, mae pob cais gan bobl anabl yn cael ystyriaeth lawn a theg ac mae ein polisi recriwtio'n gwarantu y bydd pob person anabl sy'n bodloni gofynion y rôl yn llawn yn cael cyfweliad. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw gyflogai anabl sy'n gwneud cais yn fewnol am ddyrchafiad.

Hefyd gwneir addasiadau rhesymol, os yw hynny'n bosib, ar ôl trafodaethau rhwng cyflogai mewn swydd, sydd wedi datgan anabledd, ei reolwr llinell a'r adran Adnoddau Dynol, neu gyflogai sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb sy'n effeithio o bosib ar ei allu i gyflawni cyfrifoldebau ei swydd.

Materion cymunedol a hawliau dynol

Fel rhan o'n cynllun absenoldeb arbennig, rydym wedi dal i gynnig opsiwn i aelodau staff gymryd hyd at ddau ddiwrnod o absenoldeb gyda thâl bob blwyddyn er mwyn gwirfoddoli i gynorthwyo elusennau neu grwpiau cymunedol lleol. Rydym wedi cadarnhau ein cysylltiadau â chymunedau lleol drwy ein haelodaeth o Rwydwaith Cydraddoldeb De Ddwyrain Cymru (SEWEN).

Rydym yn ymgorffori egwyddorion Hawliau Dynol yn ein harferion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a nod ein polisi ar Urddas yn y Gweithle yw sicrhau bod hawliau'r holl gyflogeion yn cael eu parchu.

Materion eraill cysylltiedig â staff

Rydym yn cynnal Arolygon bob dwy flynedd ar Agwedd y Staff er mwyn cefnogi ymgysylltiad y staff. Mae'r arolwg yn seiliedig ar Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a chamau gweithredu sy'n codi o'r arolwg hwn, ac mae gwerthusiadau eraill fel Buddsoddwyr Mewn Pobl yn cael eu cynnwys yn ein cynllun gweithredu sefydliadol sydd ar gael i'n staff i gyd ar ein mewnrwyd.

Mae gan gyflogeion fynediad i Raglen Cynorthwyo Cyflogeion sy'n darparu mynediad at wasanaeth cynghori a chwnsela 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'r adnodd ar gael ar ein gwefan ac fel adnodd symudol ac mae'n hybu ffitrwydd a ffordd iach o fyw ac yn darparu cefnogaeth iechyd meddwl.

Gwariant ymgynghori

Nid oedd unrhyw wariant ymgynghori yn ystod y flwyddyn.

Gwaith oddi ar y gyflogres

Ni fu unrhyw daliadau i gyflogeion oddi ar y gyflogres yn ystod y flwyddyn.

Pecynnau Gadael

Nid oedd unrhyw becynnau gadael yn 2015-16 (2014-15 – dim).

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2016

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Baragraff 16(3) Atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff, ac yn yr adroddiad hwnnw nodir fod hyn wedi cael ei archwilio.

Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr, yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru yn y ddeddf honno, ac yn gyfrifol am sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â'r cyfreithiau perthnasol ac yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Gyfrifyddu (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr a bennir gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes cam-ddweud o bwys yn y datganiadau ariannol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: p'un a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac wedi cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a'r ffordd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu

Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth nad yw'n ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau sylfaenol yn y datganiadau ariannol archwiliedig, ac yn seiliedig ar y wybodaeth a gesglais wrth gynnal yr archwiliad, i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylfaenol anghywir, neu sy'n sylfaenol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o bwys rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi darlun clir a theg o sefyllfa Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi cael eu paratoi mewn ffordd gywir yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- cafodd y rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff a fydd yn cael ei harchwilio ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd yn ôl arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf i'n eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

• nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Thrysorlys EM;

• na chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;

• nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff i'w harchwilio, yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;

• na ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu

• nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

19 Gorffennaf 2016

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw sicrhau bod gwefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn gweithio'n iawn a bod y wybodaeth arni'n gywir. Nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf.

Datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

		2016		Ailddatganwyd 2015	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwariant					
Cyllido addysg uwch					
Gwariant rheolaidd	3	126,043		349,143	
Dibenion eraill	5	7,932		24,058	
		133,975		373,201	
Gwariant y Cyngor:					
Costau staff		2,097		1,916	
Dibrisiant	8	83		90	
Gwariant arall	6	572		574	
		2,752		2,580	
Cyfanswm y gwariant			(136,727)		(375,781)
Incwm					
Incwm o weithgareddau	2		8,046		20,519
Costau gweithredu net			(128,681)		(355,262)
Llog taladwy			(1)		-
Costau gweithredu net ar ôl trosglwyddo llog i ecwiti'r trethdalwyr			(128,682)		(355,262)

Mae'r holl weithgareddau'n barhaus.

Nid oes enillion na cholledion cydnabyddedig yn 2015-16 na 2014-15.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dangosir manylion costau'r staff ar dudalen 46 fel rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff.

Mae ffigurau 2014-15 wedi cael eu hailddatgan yn unol â nodyn 7 y cyfrifon hyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Mawrth 2016

	Nodiadau	Ar 31 Mawrth 2016 £'000	Ailddatganwyd ar 31 Mawrth 2015 £'000
Asedau nad ydynt yn gyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	8	85	132
Grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	9a	6,750	4,750
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol		6,835	4,882
Asedau cyfredol			
Grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	9a	-	-
Masnach a derbyniadwyon eraill	9b	6,375	9,437
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	10	1,599	4,121
Cyfanswm asedau cyfredol		7,974	13,558
Cyfanswm asedau		14,809	18,440
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a derbyniadwyon eraill	11	(298)	(992)
Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau o fewn un flwyddyn	12	(1)	(1)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net		14,510	17,447
Atebolrwydd nad yw'n gyfredol			
Darpariaethau ar gyfer atebolrwydd a thaliadau ar ôl un flwyddyn	12	(22)	(24)
Asedau llai'r atebolrwydd		14,488	17,423
Ecwiti'r trethdalwyr			
Cronfa gyffredinol wrth gefn		14,488	17,423
		14,488	17,423

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae ffigurau 2015 wedi cael eu hailddatgan yn unol â nodyn 7 y cyfrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran CCAUC

Dr David Blaney
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2016

Datganiad o lifau arian

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

	Nodiadau	2016	Ailddatganwyd 2015
		£'000	£'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Costau gweithredu net cyn llog		(128,681)	(355,262)
Taliadau dibrisiant		83	90
Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a derbyniadwyon eraill yn ystod un flwyddyn		3,062	(4,849)
Cynnydd mewn grantiau i'w had-dalu sy'n ddyledus ar ôl un flwyddyn		(2,000)	(1,000)
Lleihad mewn masnach a thaladwyon eraill		(694)	(270)
Newid yn y ddarpariaeth ar gyfer atebolrwydd a thaliadau o fewn un flwyddyn		-	-
Newid mewn darpariaethau		(2)	4
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		(128,232)	(361,287)
Llifau arian o elw ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid			
Llog a dderbyniwyd		-	-
Llog a dalwyd		(1)	-
Llifau arian o elw ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid		(1)	-
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	8	(36)	(100)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(36)	(100)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		125,747	362,518
Llifau arian net o weithgareddau cyllido		125,747	362,518
Cynnydd net/ (lleihad) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		(2,522)	1,131
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		4,121	2,990
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	10	1,599	4,121
Cynnydd net/ (lleihad) mewn arian parod		(2,522)	1,131

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae ffigurau 2015 wedi cael eu hailddatgan yn unol â nodyn 7 y cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016

	Cronfa gyffredinol wrth gefn £'000
Balans ar 1 Ebrill 2015	
Fel y nodwyd yn flaenorol	12,673
Addasiadau'r cyfnodau blaenorol	
Grantiau i'w had-dalu heb eu cydnabod yn flaenorol (gweler nodyn 7):	
2013-14 a chynharach	3,750
2014-15	1,000
Balans ar 1 Ebrill 2015 – ailddatganwyd	17,423
Newid mewn ecwiti trethdalwyr 2015-16	
Costau gweithredu net	(128,682)
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2015-16	(128,682)
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	125,747
Balans ar 31 Mawrth 2016	14,488

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau'r cyfrifon

1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

(a) Sail cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys, wrth arfer pwerau a roddwyd ym mharagraff 16(2), atodlen 1 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod mwyaf priodol ar gyfer ein hamgylchiadau penodol er mwyn rhoi darlun clir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u rhoddwyd ar waith yn gyson wrth fynd i'r afael ag eitemau yr ystyrir eu bod o bwys i'r cyfrifon.

Nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd wedi'u cyhoeddi ond heb fod yn weithredol eto a fyddai'n cael effaith sylfaenol ar y datganiadau ariannol hyn pe baent wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod adrodd.

(b) Grantiau ar gyfer prosiectau'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Incwm:

Rydym yn derbyn incwm grantiau sy'n ymwneud â phrosiectau'r UE o ddwy ffynhonnell. Caiff incwm grantiau gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol yn ystod y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff incwm yr UE sy'n cefnogi prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredydu i'r datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn y caiff y gwariant ei dalu.
Gwariant:
Fel ymgeisydd ar gyfer prosiectau Ewropeaidd sy'n contractio gyda thrydydd partïon i gyflawni'r prosiectau, mae ein hatebolrwydd yn codi pan dderbynnir cais dilys gan dderbynnydd y grant.

(c) Cyllid

Caiff cyllid cymorth grant ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i ariannu gweithgareddau refeniw cyffredinol. Ystyrir y swm hwn o gymorth grant yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol wrth iddo gael ei dderbyn.

(d) Grantiau taladwy

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi fesul blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, ond caiff grantiau sy'n daladwy eu talu fesul blwyddyn academaidd hyd at 31 Gorffennaf. Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae'r derbynnydd yn cyflawni'r gweithgaredd ynddo, ac mae hyn yn creu hawl. Caiff grantiau sy'n gylchol eu natur, yn bennaf y cyllid rheolaidd a ddarperir i sefydliadau addysg uwch, eu dwyn i gyfrif wrth dalu. Yn ein barn ni, mae'r driniaeth hon yn cyflawni cyfatebiaeth ym mhob ffordd faterol rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y sefydliadau addysg uwch.

Cyfrifir am grantiau cymorth ffioedd dysgu ar sail daladwy neu groniadau. Mae'r grantiau hyn yn daladwy i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae'r Cwmni Benthyciadau i

Fyfyrwyr yn ariannu sefydliadau addysg uwch i dalu, ar ran myfyrwyr, cost y gwahaniaeth rhwng ffioedd dysgu a godir gan y sefydliadau addysg uwch a'r benthyciad ffioedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr.

(e) Grantiau i'w had-dalu

Mae grantiau i'w had-dalu'n gyllid a ddarperir i sefydliadau'n unigol i gefnogi costau cychwynnol prosiectau penodol, a gaiff eu hadfer fel rheol drwy addasiad i'w cyllid yn y dyfodol.

(f) Costau pensiynau

Caiff cyflogeion yn y gorffennol a'r presennol eu cynnwys o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Rydym yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod yr ydym yn elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau ar sail gronnol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r atebolrwydd am dalu buddion yn y dyfodol yn gyfrifoldeb i'r PCSPS.

Mae cyn-Gadeirydd CCAUC wedi'i gynnwys o dan gynllun pensiwn sy'n cyfateb i'r PCSPS. Rydym yn gwneud taliadau i'r cyn-Gadeirydd pan maent yn ddyledus. Fodd bynnag, cydnabyddir y gost ddisgwyliedig o ddarparu'r pensiwn drwy gronni darpariaeth ar gyfer atebolrwydd yn y dyfodol, gan ddefnyddio tybiaethau asesedig actiwaraidd.

(g) Eiddo, peiriannau ac offer

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu cario ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd fel procsi ar gyfer gwerth teg yr holl ddosbarthiadau o'r asedau hyn gan fod gan bob un naill ai fywyd defnyddiol byr neu werth isel, neu'r ddau.

Caiff asedau technoleg gwybodaeth sy'n costio dros £500 ac unrhyw osodiadau, ffitiadau neu gyfarpar eraill sy'n costio dros £1,000 eu cyfalafu.

Darperir dibrisio ar bob un o'r asedau hyn ar gyfraddau a gyfrifir i ddiddymu cost pob ased ar sail y dull llinell syth dros ei fywyd defnyddiol disgwyliedig, a hynny'n adlewyrchiad realistig o ddefnydd yr ased, fel y dangosir isod. Codir tâl am flwyddyn lawn o ddibrisiad yn y flwyddyn gaffael

Asedau technoleg gwybodaeth	- 3 blynedd
Offer trydan	- 5 mlynedd
Ffitiadau a gosodiadau	- 5 mlynedd

Caiff unrhyw newidiadau i'r swyddfa a gynhwysir yn y gosodiadau a'r ffitiadau eu hamorteiddio dros y cyfnod sy'n weddill o'r les, o'r dyddiad prynu.

(h) Treth ar Werth

Gan nad ydym wedi ein cofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW priodoladwy.

(i) Lesoedd gweithredu

Caiff tâl a godir am renti les gweithredol ei ychwanegu at y datganiad cost gweithredu yn y flwyddyn berthnasol**.**

(j) Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw derbyniadwyon masnach yn cario unrhyw log, ac fe'u datgenir ar

eu gwerth enwol fel y'u lleiheir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig. Arian parod yw arian parod wrth fancio ar delerau mynediad ar unwaith.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw taladwyon masnach yn dwyn llog ac fe'u datgenir ar eu gwerth enwol.

(k) Adrodd cylchrannol

Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn annog cyrff cyhoeddus i fodloni gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS 8) i adrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â chylchrannau gweithredu lle bodlonir y meini prawf sydd o dan IFRS 8. Rydym o'r farn bod ein gweithgareddau'n cyfrannu at un genhadaeth sy'n gweithredu o fewn yr un amgylchedd busnes, ac rydym yn ystyried nad oes cylchrannau gweithredu y gellir eu gwahanu. O ganlyniad, nid ydym yn adrodd drwy gylchrannau gweithredu.

(l) Costau staff a secondiadau

Mae staff ar secondiadau’n parhau i gael eu talu gennym ni fel rheol. Caiff ad-daliad o gostau ar gyfer staff ar secondiadau ei ddebydu yn erbyn costau staff yn y nodyn sydd yn Adroddiad y Staff ar dudalen 46, sy’n rhan o’r Adroddiad Rhwymedigaethau.

2. Incwm o weithgareddau

	2016 £'000	2015 £'000
Yr Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop	(5)	3,833
Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau – Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil	7,406	5,708
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	330	330
Llywodraeth Cymru - ectarc Ltd (a)	-	102
Twf Swyddi Cymru (b)	14	1,555
Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (c)	-	8,991
Cyd-rwydwaith Academaidd y DU 6 (Janet 6) (d)	98	-
Prosiect Cronfa Wybodaeth yr Heddlu (e)	203	-
	8,046	20,519

(a) Mae'r cyllid hwn yn ymwneud ag ectarc Cyf. yn darparu lleoliadau gwaith UE i raddedigion o Gymru. 2014-15 oedd blwyddyn olaf y cyllid ar gyfer y prosiect hwn.

(b) Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â phrosiect gyda Llywodraeth Cymru i roi cyfleoedd gwaith i raddedigion mewn busnesau yng Nghymru.

(c) Mae hwn yn gyllid o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (RPIF y DU) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni ym Mhrifysgol Abertawe a ddaeth i ben yn 2015.

(d) Mae hwn yn gyllid i gynorthwyo costau darparu ‘Janet 6’ er mwyn galluogi’r cyd-rwydwaith academaidd (Janet) i barhau i ddarparu gwasanaethau i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Caiff y cyllid hwn ei dalu i Jisc

(e) Dyma gyllid ar gyfer y Ganolfan Ddatblygu Ymchwil, Dadansoddiad a Chyfathrebu Ffynhonnell Agored (OSCAR) ym Mhrifysgol Caerdydd.

3. Cyllido addysg uwch

	2016	Ailddatganwyd 2015
Sefydliadau Addysg Uwch	£'000	£'000
Prifysgol Aberystwyth	6,842	9,621
Prifysgol Bangor	7,752	10,243
Prifysgol Caerdydd	43,020	62,060
Prifysgol Abertawe	15,610	20,536
Prifysgol Glyndŵr	3,151	5,464
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	2,262	3,148
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	5,234	8,039
Prifysgol De Cymru	19,301	21,020
Prifysgol Cymru	209	424
Y Brifysgol Agored	9,768	6,482
Is-gyfanswm	113,149	147,037
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyf. (gweler (a) isod)	-	194,178
Sefydliadau Addysg Bellach		
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr	-	1
Coleg Llandrillo	433	296
Grŵp Castell-nedd Port Talbot (gynt) Coleg Castell-nedd Port Talbot	66	45
Coleg Gŵyr Abertawe	37	31
Is-gyfanswm	536	373
Cyfanswm a ddygwyd ymlaen	113,685	341,588

	2016	Ailddatganwyd 2015
	£'000	£'000
Cyfanswm a ddygwyd ymlaen o'r dudalen flaenorol	113,685	341,588
Sefydliadau eraill		
Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	-	167
Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol	-	21
Uned Herio Cydraddoldeb	76	58
Hardisty Jones Associates Ltd	-	65
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE)	404	585
HESA Services Ltd	-	44
HESA	31	-
Yr Academi Addysg Uwch	314	582
Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru	-	575
JANET (Y DU) Cyf.	2,178	2,310
KPMG LLP	23	-
Canolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnesau	34	34
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	-	41
Miller Research	-	33
Old Bell 3 Ltd	-	52
Parity Solutions Ltd	-	46
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	282	262
The Conversation Trust (Y DU) Limited	20	-
UCAS	20	21
Prifysgolion y DU	48	71
Prifysgolion Cymru (Addysg Uwch Cymru gynt)	60	45
Llywodraeth Cymru	-	245
CBAC Cyf.	-	20
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	8,384	7,324
Arall (gweler (b) isod)	483	503
Is-gyfanswm	12,357	13,104
Cyfanswm	126,042	354,692
Ychwanegu'r/(llai'r) gwariant a ariannwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (gweler nodyn 5)	15	(3,993)
Llai'r gwariant Twf Swyddi Cymru (gweler nodyn 5)	(14)	(1,556)
Cyfanswm	126,043	349,143

(a) Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyllido'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn uniongyrchol gyda grantiau cymorth ffioedd hyfforddi o fis Ebrill 2015 ymlaen yn golygu nad yw'r cyfrifoldeb hwn gennym bellach o 2015-16 ymlaen. Mae hyn wedi arwain at leihad sylweddol yn lefel cyfanswm y cyllid sydd ar gael i ni gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector AU.

Blwyddyn Academaidd 2014/15 oedd y drydedd flwyddyn i ni dalu cyllid am grantiau cymorth ffioedd hyfforddi i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Wedyn roedd y cwmni'n talu am eu myfyrwyr cymwys i'r sefydliadau addysg uwch. Fel y dangosir uchod, gwnaed taliadau o £194.2 miliwn i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn flaenorol, 2014-15.

(b) Mae hyn yn cynnwys cyfraniad o £250k o gyllideb y rhaglen tuag at gostau rhedeg, cyflogau a thâl, fel y datgelir yn y nodyn Costau Staff ar dudalen 46.

4. Grantiau i sefydliadau

Caiff grantiau i sefydliadau addysg uwch eu cynnwys yn y cyfrifon hyn, ac mae'r rhain yn amodol ar gadarnhad gan archwilwyr allanol y derbynnydd eu bod wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig. Mae blwyddyn ariannol y sefydliadau addysg uwch yn dod i ben ar 31 Gorffennaf a chyflwynir eu cyfrifon archwiliedig i ni erbyn 31 Rhagfyr. Cadarnhaodd archwiliad gennym o ddatganiadau ariannol y sefydliadau yn 2014/15 bod archwilwyr allanol pob sefydliad o'r farn bod y grantiau wedi cael eu defnyddio i'w diben bwriadedig ac felly nid oedd yn angenrheidiol addasu'r grantiau. Arweiniodd yr archwiliad ar niferoedd y myfyrwyr a wnaed yn haf 2015 at hawlio £1,433k yn ei ôl. Caiff unrhyw addasiad sy'n deillio o'r archwiliad ar gyfrifon a niferoedd myfyrwyr 2015/16 ei wneud gennym yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Cadarnhawn fod y grantiau rydym wedi'u derbyn gan Lywodraeth Cymru wedi cael eu defnyddio i'w dibenion cymeradwy.

5. Gwariant at ddibenion eraill

	2016 £'000	2015 £'000
Cronfa Gymdeithasol Ewrop (a)	(15)	3,993
Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Ymchwil (b)	7,406	5,708
Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	324	320
ectarc Cyf. (c)	-	102
Twf Swyddi Cymru (d)	14	1,556
Gwella Perfformiad Amgylcheddol drwy Ymgysylltu â Myfyrwyr (e)	-	17
Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (f)	-	8,991
Cyfraniad cyfalaf tuag at uno (g)	-	3,371
Prosiect Cronfa Wybodaeth yr Heddlu (h)	203	-
	7,932	24,058

(a) Cwblhawyd prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r tandaliad hwn yn berthnasol i wariant a gyflwynwyd ond a bennwyd yn anghymwys wedyn, ac ni chafodd ei ganiatáu.

Mae swm o £4k (2015 - £3k) wedi cael ei dalu yn ystod y flwyddyn i Swyddfa Archwilio Cymru am waith a wnaed ar hawliadau grant Ewropeaidd.

(b) Rhoddir dadansoddiad o gyllid cyfalaf ymchwil fesul sefydliad addysg uwch isod.

	2016 £'000	2015 £'000
Prifysgol Aberystwyth	1,020	796
Prifysgol Bangor	836	643
Prifysgol Caerdydd	3,913	3,111
Prifysgol Abertawe	1,637	1,158
	7,406	5,708

(c) Talwyd y cyllid hwn i ectarc Cyf. i ddarparu lleoliadau gwaith yn yr UE i

raddedigion o Gymru.

(d) Mae'r rhain yn gostau sy'n ymwneud â phrosiect i ddarparu cyfleoedd gwaith i raddedigion mewn busnesau yng Nghymru. Cwblhawyd y prosiect hwn ym mis Mai 2015.

(e) Gwnaed y gwaith hwn gan Wasanaethau Elusennol UCM ar y cyd â chwe sefydliad addysg uwch yng Nghymru.

(f) Roedd hwn yn gyllid o Gronfa Buddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU (RPIF y DU) ar gyfer y Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni ym Mhrifysgol Abertawe.

(g) Roedd hwn yn gyllid cyfalaf a dalwyd i Brifysgol De Cymru (Prifysgol Morgannwg yn flaenorol) fel cyfraniad at y costau cysylltiedig ag uno â Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar 11 Ebrill 2013.

(h) Dyma gyllid ar gyfer y Ganolfan Ddatblygu Ymchwil, Dadansoddiad a Chyfathrebu Ffynhonnell Agored (OSCAR) ym Mhrifysgol Caerdydd.

6. Gwariant arall

	2016 £'000	2015 £'000
Costau gweinyddu		
Costau gweinyddu	207	211
Costau swyddfa	45	43
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	70	48
Cydnabyddiaeth archwilwyr - Ffi archwilio flynyddol CCAUC	24	30
Costau teithio a chynhaliaeth aelodau'r Cyngor	16	13
Costau cyfarfod aelodau'r cyngor	25	12
Costau teithio a chynhaliaeth staff	33	33
Gwariant ar hyfforddiant, recriwtio ac ati sy'n gysylltiedig â staff	26	34
Costau technoleg gwybodaeth	126	150
	572	574

Ein harchwilydd yn ystod y flwyddyn oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd archwiliad Cydymffurfiaeth CThEM yn edrych ar gostau teithio a chynhaliaeth a threuliau'r staff ac aelodau'r Cyngor. O ganlyniad i anomaleddau a ganfuwyd, talodd CCAUC £33k (roedd £15k o gyflogau'n cynnwys y costau cyflog a ddangosir ar dudalen 46 yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff, £17k o gostau teithio a chynhaliaeth a chyfarfodydd aelodau'r Cyngor a gynhwysir uchod) o yswiriant gwladol a thaliadau Talu Wrth Ennill ar gyfer y cyfnodau rhwng 2010-11 a 2015-16. Roedd y swm yn cynnwys llog o £1k fel y dangosir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

7. Addasiad y cyfnodau blaenorol

Mae addasiad y cyfnodau blaenorol mewn perthynas â gorddatgan gwariant ailadroddus rhaglen yn ymwneud â chamgymeriad mewn perthynas â methu cydnabod £4.75 miliwn o grantiau i'w had-dalu oedd yn ddyledus gan sefydliad addysg uwch. Roedd y gwariant hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2006-07 a 2014-15, fel y manylir isod.

Yn 2006-07, cytunwyd ar becyn cyllido o £12.75 miliwn gyda sefydliad addysg uwch a oedd yn cynnwys grant i'w ad-dalu o £3.75 miliwn, a dalwyd yn ystod blynyddoedd ariannol 2006-07 i 2009-10. Yn 2012-13, cytunwyd ar becyn cyllido o £24.9 miliwn gyda sefydliad addysg uwch a oedd yn cynnwys grant i'w ad-dalu o £3 miliwn. Talwyd £1 miliwn o'r grant yma yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15 a'r balans o £2 miliwn yn y flwyddyn gyfredol, 2015-16.

Yn y ddau achos, cafodd taliad y grantiau i'w had-dalu ei gyfrif mewn camgymeriad fel 'gwariant ailadroddus addysg uwch' yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, yn hytrach na fel 'grantiau i'w had-dalu' yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae'r cywiriadau a wnaed yn y cyfrifon hyn yn cynnwys y canlynol:

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

	£000
Gorddatgan 'gwariant ailadroddus addysg uwch'	
Yn 2014-15 – fel y nodwyd yn flaenorol	350,143
Addasiad	(1,000)
Fel ailddatganwyd	349,143
Cyfnodau blaenorol 2006-07 i 2009-10 – addasiad	(3,750)
Cyfanswm addasiad y cyfnodau blaenorol	(4,750)

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Tanddatgan 'grantiau i'w had-dalu' (gweler nodyn 9a)	
Ar 31 Mawrth 2015 – fel y nodwyd yn flaenorol	-
Addasiad y cyfnodau blaenorol	4,750
Ailddatganwyd ar 31 Mawrth 2015	4,750

Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr

Tanddatgan Ecwiti Trethdalwyr (gweler manylion addasiad y cyfnodau blaenorol ar dudalen 56)	
Ar 31 Mawrth 2015	4,750

8. Eiddo, peiriannau ac offer

	Cyfarpar technoleg gwybodaeth	Gosodiadau a ffitiadau	Cyfanswm
Cost	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Ebrill 2015	534	286	820
Ychwanegiadau	35	1	36
Gwarediadau	(52)	-	(52)
Ar 31 Mawrth 2016	517	287	804
Dibrisiant			
Ar 1 Ebrill 2015	445	243	688
Tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn	67	16	83
Rhyddhawyd ar warediadau	(52)	-	(52)
Ar 31 Mawrth 2016	460	259	719
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	57	28	85
Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2015	89	43	132
Cyllido asedau			
Asedau sy'n eiddo			
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	57	28	85

9a. Grantiau i'w had-dalu

	2016	Ailddatganwyd 2015
	£'000	£'000
Grantiau i'w had-dalu		
Balansau ar 1 Ebrill	4,750	3,750
Blaendalwyd yn ystod y flwyddyn	2,000	1,000
Ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn	-	-
Balansau ar 31 Mawrth	6,750	4,750
Balansau ar 31 Mawrth		
O fewn un flwyddyn	-	-
Ar ôl un flwyddyn	6,750	4,750
Balansau ar 31 Mawrth	6,750	4,750

Mae grantiau i'w had-dalu'n gyllid a ddarperir i sefydliadau ar sail unigol i gefnogi prosiectau cymeradwy o'r rhan briodol o gyllideb y rhaglen.

Mae pryd dechreuir talu'n ôl a hyd y cyfnod ar gyfer talu'r grantiau'n ôl yn amrywio yn unol ag amodau'r grant, fel y cytunwyd gyda'r sefydliad.

Nid yw unrhyw rai o'r grantiau uchod yn dwyn llog.

Ar 31 Mawrth 2016, roedd gan un sefydliad (2015 – un) grantiau i'w had-dalu o hyd.

Mae ffigurau 2015 wedi cael eu hailddatgan fel y nodir yn nodyn 7.

9b. Derbyniadwyon masnach ac asedau cyfredol eraill

	2016 £'000	2015 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	132	4,466
Derbyniadwyon eraill	6,243	4,971
	6,375	9,437
Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	-	4,352
Balansau gyda chyrff llywodraeth eraill	-	4,352
Balansau gyda chyrff anllywodraethol	6,375	5,085
	6,375	9,437

Mae 'derbyniadwyon eraill' yn cynnwys £1,804k o gyllid a fydd yn cael ei gasglu gan sefydliadau addysg uwch yn ymwneud â chyllido asiantaethau yn y sector a benthyciad tymor byr am gymorth llif arian (sydd wedi'i ad-dalu'n gyfan gwbl ers diwedd y flwyddyn) a hawlio'n ôl ar £1,433k o gyllid yn dilyn archwiliad 2014/15 ar niferoedd y myfyrwyr (gweler nodyn 4).

10. Arian a chyfwerth ag arian parod

	2016 £'000	2015 £'000
Arian a ddelir o dan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth		
Balans ar 1 Ebrill	2,077	2,413
Newid net ym malansau arian a chyfwerth ag arian parod	(1,098)	(336)
Balans ar 31 Mawrth	979	2,077
Arian a ddelir o dan fanciau masnachol ac arian mewn llaw		
Balans ar 1 Ebrill	2,044	577
Newid net ym malansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	(1,424)	1,467
Balans ar 31 Mawrth	620	2,044
Cyfanswm arian parod a chyfwerth ag arian parod	1,599	4,121

Mae Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS) yn wasanaeth bancio ledled y Llywodraeth. Hyd at fis Chwefror 2016, roedd yn cael ei ddarparu ar y cyd gan Citibank a Banc Brenhinol yr Alban, a'i oruchwylio'n ganolog gan dîm y Gwasanaeth, a oedd yn cael ei reoli gan Drysorlys EM yn y pen draw. O fis Chwefror 2016 ymlaen, roedd yn cael ei ddarparu gan Fanc Brenhinol yr Alban yn unig. Nid ydym yn ennill unrhyw log ar unrhyw falans a ddelir yng nghyfrifon Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth. Cawsom ganiatâd gan Drysorlys EM i barhau i ddefnyddio cyfleusterau bancio masnachol i wneud taliadau.

11. Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	2016 £'000	2015 £'000
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		
Croniadau	298	901
Trethiant a nawdd cymdeithasol arall	-	90
Credydwyr amrywiol	-	1
	298	992
Balansau mewnlywodraethol		
Cyrff llywodraeth ganolog eraill	-	90
Balansau gyda chyrff llywodraeth eraill	-	90
Balansau gyda chyrff anllywodraethol	298	902
	298	992

12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

	2016 £'000	2015 £'000
Yn fras yn ôl atebolrwydd pensiwn cyfatebol (gweler y nodyn Costau Staff ar dudalennau 46 a 47)	23	25
Dadansoddiad o amseru atebolrwydd		
Dyledus o fewn blwyddyn	1	1
Dyledus rhwng 2016 a 2021	7	7
Dyledus rhwng 2022 a 2032	15	17
	23	25

13. Ymrwymiadau o dan lesoedd

Lesoedd gweithredu

Rhoddir cyfanswm y taliadau les isafswm yn y dyfodol o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau dilynol.

	2016 £'000	2015 £'000
Mae ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredu yn cwmpasu:		
Adeiladau		
Dim hwyrach nag un flwyddyn	82	82
Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	37	119
	119	201

Caiff gwariant yn y flwyddyn ar gostau lesio o £82 mil ei gynnwys yn nodyn 6.

14. Ymrwymiadau cyfalaf

	2016 £'000	2015 £'000
Ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2016 heb eu cynnwys fel arall yn y cyfrifon hyn		
Eiddo, peiriannau ac offer		
Dan gontract	9	2

15. Ymrwymiadau ariannol eraill ac atebolrwydd digwyddiadol

	2016 £'000	2015 £'000
Grantiau refeniw	39,272	23,850
	39,272	23,850

Caiff y swm hwn ei ariannu gan gymorth grant gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Gorffennaf 2016.

Ar 31 Mawrth 2016, nid oedd atebolrwydd digwyddiadol (2015 – dim).

16. Colledion a thaliadau arbennig

	2016 £	2015 £
Taliadau ofer	90	4,043

17. **Partïon cysylltiedig**

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael amryw drafodion o bwys â Llywodraeth Cymru, a ystyrir yn rhiant Adran i'r sefydliad.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor wedi ymrwymo i berthynas â sefydliadau a ystyrir yn bartïon cysylltiedig; dangosir y manylion yn y tabl isod:

Enw	**Perthynas â'r parti cysylltiedig**
Dr David Blaney (Prif Weithredwr ac Aelod o'r Cyngor)	♦ Cymrawd, Academi Addysg Uwch ♦ Merch yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd
Mr David Mason (Aelod o'r Cyngor)	♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Cymru, Casnewydd (Prifysgol De Cymru bellach)
Mrs Bethan Guilfoyle CBE (Aelod o'r Cyngor)	♦ Doethur Addysg er Anrhydedd, Prifysgol Morgannwg (Prifysgol De Cymru bellach)
Dr Arun Midha (Aelod o'r Cyngor)	♦ Partner yn gyflogedig gyda Phrifysgol Caerdydd
Yr Athro Robin Williams CBE (Aelod o'r Cyngor)	♦ Athro Emeritws, Prifysgol Cymru ♦ Athro Emeritws, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Bangor ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Aberystwyth ♦ Aelod, Grŵp Ymgynghorol ar gyfer Peirianneg, Prifysgol Abertawe ♦ Cymrawd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ♦ Cyflogir ei ferch gan Brifysgol Abertawe
Yr Athro Mark Smith (Aelod o'r Cyngor)	♦ Aelod o'r Bwrdd, Awdurdod Safonau Addysg Uwch ♦ Aelod, Rhwydwaith Cynghori Strategol, EPSRC ♦ Ymddiriedolwr, Jisc ♦ Ymddiriedolwr, AQA ♦ Aelod, Y Pwyllgor Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethu, HEFCE ♦ Aelod bwrdd, Prifysgolion a Cholegau
Yr Athro Stephen Tomlinson CBE (Aelod o'r Cyngor hyd at 31/12/15)	♦ Athro Emeritws, Prifysgol Caerdydd ♦ Aelod Lleyg, Pwyllgor Safonau Biolegol, Prifysgol Caerdydd
Mr Ewart Wooldridge CBE (Aelod o'r Cyngor hyd at 31/12/15)	♦ Cymrawd Anrhydeddus, Prifysgol Caerdydd

Mae unrhyw gyllid a gaiff ei dalu i'r sefydliadau a'r cyrff a nodir uchod wedi'i ddatgan yn nodyn 3, fel arall roedd y cyllid a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn sero. Nid oes yr un o'r bobl uchod wedi cyflawni unrhyw drafodion o bwys gyda ni.

18. Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 32 a 39, mae'n ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am yr effeithiau posib y gall offerynnau ariannol eu cael ar ei sefyllfa a'i berfformiad ariannol, ac am ba mor agored i risg ydyw.

Risgiau hylifedd – Yn 2015-16 roedd £125.7 miliwn, neu 94.0% o'n hincwm, wedi dod gan Lywodraeth Cymru (2014-15: £362.5 miliwn neu 94.6%). O'r incwm a oedd yn weddill, roedd £8.0 miliwn, neu 6.0%, wedi dod o incwm o weithgareddau (2014-15: £20.5 miliwn neu 5.4%).

Nid ydym yn ystyried bod ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg hylifedd sylweddol ac rydym yn fodlon bod ein hincwm yn y dyfodol yn ddigon i dalu am ein hymrwymiadau.

Risgiau cyfradd llog – Nid yw balansau arian yn cael eu dal bellach mewn cyfrifon sy'n dwyn llog ac felly nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau cyfradd llog.

Risg arian tramor – Nid yw ein gweithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risgiau cyfnewid tramor sylweddol.

Risg llif arian – Nid ydym yn agored i unrhyw risgiau llif arian sylweddol.

19. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 14 Gorffennaf 2016, a fyddai wedi golygu bod rhaid addasu'r cyfrifon.